# Y TINCER

PRIS 40c

Rhif 308

Ebrill 2008

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


## TAITH ARBENNIG



Yn ystod Pasg 2006 fe es i gystadlu yng ngŵyl delynau ryngwladol cyntaf Caernarfon. Yn ystod yr wythnos cymerais ran mewn nifer o weithdai gan delynorion proffesiynol o bob cwr o'r byd. Gwnes nifer o ffrindiau newydd ac roedd un o'r rhain yn dod o Thailand. Wrth sgwrsio â Takkamol a'i mam, cefais fy nghyflwyno i'w hathrawes sef Sunida Kitiyakara. Erbyn deall, ei theitl llawn yw Mom Rajawongse (neu Ei Huchelder Y Fonesig) Sunida Kitiyakara, gor-wyres i'r Brenin Rama V ac wyres y Tywysog Chudadhuj, sef plentyn rhif 72 y brenin. Roedd yn arferiad gan y teulu brenhinol ar y pryd i anfon y bechgyn ifanc i Loegr i dderbyn eu haddysg ac yma y clywodd y Tywysog y delyn yn cael ei chanu am y tro cyntaf. Gan fod ganddo ddiddordeb mewn cerddoriaeth penderfynodd fod yn rhaid iddo ddod â thelyn yn ôl gydag e' i Thailand. Gofynnodd i gwmni Morley i adeiladu telyn arbennig iddo. Erbyn hyn mae'r delyn wedi ei hadnewyddu a chyflwynodd merch y Tywysog, sef mam Sunida, un o balasau haf y Tywysog i gael ei symud i le pwrpasol yn Bangkok a'i droi'n amgueddfa ac yn ysgol gerdd. Agorwyd yr ysgol yn 2002 gyda chyngerdd arbennig gan Catrin Finch. Ar ddiwedd yr ŵyl yng Nghaernarfon cefais fy ngwahodd i Thailand i ymweld ag Ysgol y Delyn Tamnak Prathom ac eleni yn ystod gwyliau'r Pasg daeth y cyfle i hedfan allan i Bangkok.




Mared yn chwarae telyn wreiddiol y Tywysog Chudadhuj ar ei hymweliad a Bangkok

Rhan gyntaf y siwrne oedd y daith o Heathrow i Bangkok. Siwrne hir o 11 awr ar awyren Thai Airways 747. Fe wnaethom hedfan dros nifer o wledydd gan gynnwys India ac Afghanistan! Er inni gychwyn o Lundain amser cinio, wnaethon ni ddim glanio tan 6 o'r gloch y bore canlynol. Y peth cyntaf y sylwais arno oedd y gwres. Er ei bod yn gynnar, roedd hi'n boeth iawn. Yna teithio i'r gwesty yng nghanol Bangkok trwy'r traffig gwyllt. Roedd y gwesty yn un moethus ond ar ochr stryd brysur iawn ond gan ein bod ar lawr rhif 25 doedd swn pawb yn canu corn ar ei gilydd ddim i'w glywed ormod.

Er cael dwy awr o gwsg dyma Thongchai – cynorthwywr Sunida – yn galw i'n casglu a'n cludo i dŷ Sunida am ginio. Roedd yn braf iawn cwrdd â hi unwaith eto, mae'n dipyn o gês! Wrth gwrs roedd rhaid ymweld ag Ysgol y Delyn ychydig ddrysau i lawr y 'soi', lôn fach gefn, a chael profiad arbennig – cael chwarae telyn wreiddiol ei thad-cu. Nid pawb sy'n cael y fraint hon. Roeddwn ofn ei thorri! Yna symud i'r delyn Lyon & Healy aur y drws nesaf.

**Parhau ar dudalen 3 ...**

## BACHIAD DA



**Er fod haf 2007 y gwlypaf o fewn cof, a bod hyn wedi golygyu bod afonydd yn uchel a physgota yn amhosibl ar rai dyddiau llwyddodd Fred Ralphs,Garth Gwyn, Penrhyn-coch i ddal y pysgodyn ymfudol trymaf am 2007 - eog 14 pwys 4 owns.**

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 308 | Ebrill 2008

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG

**SWYDDOGION**

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - dylunio graffeg 832980

**CADEIRYDD -** Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre 828262

**IS-GADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street 828337

**TRYSORYDD** - David England
Pantyglyn, Llandre 828693

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

**GOHEBYDDION LLEOL**

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach 880335
Elwyna Davies, Tyncwm 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau 828 296

# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MAI 1 a MAI 2 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MAI 15

EBRILL 17 Tri Bardd: Cerddi a Throsiadau Y beirdd: Menna Elfyn, Elin ap Hywel a Joe Clancy yn darllen eu gwaith ac yn trafod yr her o drosi barddoniaeth yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru am 7.00 Noson ddwyieithog Mynediad am ddim trwy docyn

EBRILL 18 Nos Wener Noson Goffi dosbarth gwnio Llandre, yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00

EBRILL 18-19 Nos Wener a dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch. Y cyfarfodydd i ddechrau: Nos Wener: 5.30 o'r gloch. Sadwrn : Nawn 12.30 o'r gloch a Hwyr 6.30 o'r gloch

EBRILL 19 Dydd Sadwrn Sêl cist car Neuadd Rhydypennau Am le i gar ffoniwch 828032 neu 828772

MAI 9 Nos Wener Cwis – timau o gymdeithasau a mudiadau lleol - yng Nhlwb Pêl-droed Penrhyn-coch am 7.30 Trefnir gan Bwyllgor Plwyf Trefeurig Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010

MAI 11 Dydd Sul Cymanfa Ganu Eglwysi Gogledd Ceredigion yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth am 10.00 a 5.30

MAI 11-17 Wythnos Cymorth Cristnogol

MAI 15 Nos Iau Lawnsio gwefan plwyf Trefeurig yn Ysgol Penrhyn-coch am 7.30.
MAI 15-16 Nosweithiau Iau a Gwener Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Siwan (Saunders Lewis) yng Nghanolfan y Celfyddyau am 7.30

MAI 17 Dydd Sadwrn Cinio'r tlodion Cymorth Cristnogol yn Neuadd yr Eglwys am 12.00

MAI 26-31 Eisteddfod yr Urdd 2008 Sir Conwy

MEHEFIN 11 Nos Fercher Cyngerdd Cymorth Cristnogol yn Horeb, Penrhyn-coch gyda Cantre'r Gwaelod am 7.30

MEHEFIN 13 Nos Wener Barbiciw yng Nghartref Tregerddan am 6.30 Trefnir gan Ffrindiau'r Cartref

**Croeso i chi yrru newyddion a lluniau i'r golygydd trwy e-bost i ytincer@googlemail.com**

**FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN**

**Barbiciw yn y Cartref**

**Nos Wener, 13 Mehefin**
**am 6.30 o'r gloch**

**Croeso cynnes i bawb**

## Cyfeillion y Tincer

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Mawrth

£15 (Rhif 35) Catrin Medi Owen, Pant Y Peren, Llandre.
£10 (Rhif 32) Huw Meirion Edwards, Banc yr Eithin, Llandre.
£ 5 (Rhif 104) Y Parchg Judith Morris, 47 Glan Ceulan, Penrhyn-coch

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.

Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer. Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.

Deunydd i'w gynnwys

Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Telerau hysbysebu y rhifyn

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

Prosiect Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro
Antur Teifi
Yr Undeb Ewropeaidd Amcan 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Y Tincer drwy'r post**

Pris 10 rhifyn - £9 (£17 i wlad y tu allan i Ewrop).Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp**

Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street 828555.

**Camera'r Tincer**

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street ( 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**.... parhad o dudalen 1**

Gobeithio fod mam a dad wedi sylwi ar y delyn yma! Ar ôl cinio gyda dwy o athrawesau Ysgol y Delyn, sef Ema o Siapan a Heleen o Wlad Belg, dyma gyfle i deithio o amgylch Bangkok dan arweiniad Thongchai. Mynd ar y 'skytrain' i ddechrau sy'n llithro'n dawel uwchben y strydoedd gwyllt cyn newid i un o gychod hir traddodiadol Bangkok a theithio i fyny'r afon Chao Praya. Yn ystod y daith fe welon ni'r palas Brenhinol, temlau hardd a llawer o adeiladau arbennig ac amgueddfa'r cychod Brenhinol aur – heb anghofio'r Salamander yn torheulo.

Y bore canlynol fe gafon ni'r fraint arbennig o fynd i'r palas mawr i'r neuadd ble yr oedd y Dywysoges Galyani, chwaer fawr y Brenin, yn gorwedd. Fe fu farw ddechrau mis Ionawr ac ers hynny mae miloedd o bobl wedi dod i'r palas i ffarwelio â hi gan ei bod yn berson uchel iawn ei pharch. Yn ddiweddar roedd y neuadd wedi cael ei chau i'r cyhoedd ond fe fuon ni'n ddigon ffodus i gael caniatâd i fynd i'r neuadd. Ar ôl ymweld a rhannau eraill o'r palas a Theml y Bwda Emrallt a theithio mewn Tuk Tuk (tacsi beic modur tair olwyn), roedd rhaid paratoi ar gyfer prif bwrpas y daith sef chwarae yn Ysgol y Delyn. Cyngerdd misol y disgyblion oedd hwn felly roedd llawer o ddisgyblion yr ysgol yn chwarae yn unigol ac fel ensemble ynghyd ag ensemble yr athrawon a'r cyfarwyddwr cerdd. Fe gefais i gyfle i gloi'r Gyngerdd a chwarae am tua 20 munud. Cefais ddewis pa delyn i'w chanu, felly dyma gyfle i roi tro ar y Camac Clio. Fe wnes i fwynhau fy hun yn fawr iawn ac roedd yn braf cwrdd â Takkamol unwaith eto.

**Mared Pugh-Evans**

**Ydych chi'n casglu platiau'r Eisteddfod Genedlaethol? Oes bwlch yn eich casgliad?**

Yn ddiweddar cafodd Pwyllgor Apêl yr Eglwys Newydd, Caerdydd, rodd o dri phlât o Eisteddfodau Cenedlaethol Abertawe 1964, Llambed 1984 ac Abergwaun 1986 i'w gwerthu am y cynnig uchaf er budd y gronfa leol. Mae'n diddorol nodi fod prinder plât Abergwaun ar y pryd a bod plât Abertawe yn uniaith Saesneg.

Os am wneud cynnig am unrhyw blât yna cysylltwch â Siwan yn swyddfa'r Eisteddfod yng Nghaerdydd ar 029 2076 3777, drwy e-bost siwan@eisteddfod.org.uk neu drwy lythyr (40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, CaerdyddCF14 5DU cyn Mehefin 30ain 2008




CYMANFA GANU GOGLEDD CEREDIGION

RIHYRSALS AM 7.00 O'R GLOCH

NOS FERCHER 23 EBRILL, HOREB, PENRHYN-COCH

NOS FERCHER 30 EBRILL, Y GARN, BOW STREET

NOS FERCHER 7 MAI, Y MORFA, ABERYSTWYTH

CYNHELIR Y GYMANFA BORE A NOS SUL MAI 11 YNG NGHAPEL Y MORFA, ABERYSTWYTH AM 10.00 A 5.30

ARWEINYDD: ALAN WYNNE JONES




Yn ystod cyfnod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni fe fydd Gwersyll yr Urdd Caerdydd yn agor ei drysau i'r cyhoedd er mwyn cynnig llety i deuluoedd a grwpiau drwy gydol yr wyl.

Canolfan breswyl ddinesig yw'r Gwersyll ac fe'i lleolir yn un o adeiladau mwyaf cyffrous Ewrop, Canolfan Mileniwm Cymru, yng nghanol bwrlwm Bae Caerdydd. Drws nesaf i adeilad y Senedd, mae'n lle cyfleus ar gyfer maes yr Eisteddfod ac yn ddelfrydol i flasu diwylliant prifddinas Cymru a chael blas ar amrywiaeth eang o weithgareddau o amgylch y bae.

Mae lle i dros 150 o bobl i aros yn y Gwersyll mewn ystafelloedd en-suite sy'n cysgu hyd at 6 person. Mae'n le perffaith hefyd i grwpiau, corau a phartïon, gyda nifer o ystafelloedd ymarfer at ddefnydd preswylwyr, ac mae Neuadd yr Urdd, sy'n neuadd fawr aml bwrpas, yn ddelfrydol i grwpiau o ddawnswyr.

Am y cyfnod hwn yn unig mae Gwersyll yr Urdd Caerdydd yn cynnig pris arbennig o 125 y noson am ystafell sy'n cysgu i fyny at 6 person gan gynnwys brecwast llawn yn y pris!

Mae llefydd, wrth reswm, yn gyflym llenwi felly cysylltwch a'r Gwersyll yn fuan ar 029 2063 5678 neu ebostiwch caerdydd@urdd.org.

Cofiwch, y cyntaf i'r felin.....!


Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

# Y BORTH

## Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd

Dydd Gwener. 7 Mawrth, yng Nghapel y Gerlan, cynhaliwyd y gwasanaeth blynyddol sydd yn cyd-fynd â Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd. Roedd y gwasanaeth, eleni yn neilltuol o nodedig, gan iddo farcio saith deg pump o flynyddoedd ers ei sefydlu ym 1933.

Trefnwyd gwasanaeth 2008 gan Chwiorydd yr Eglwys yn Guyana, De America, o dan deitl "Daw Doethineb Duw a Dealltwriaeth Newydd". Cymerwyd rhan yn y darlleniadau a'r gweddïau gan aelodau o bob enwad yn ardal Y Borth, Dôl-y-bont, Eglwys-fach, Llandre a Bow Street. Mrs Nansi Hayes oedd y siaradwraig, ar ôl camu i'r bwlch ar fyr rybudd. O edrych ar y defnydd a ddaeth gyda ffurf y gwasanaeth, eglurodd Nansi fod diwylliant Guyana yn ddiwylliant Caribi. Enillodd Guyana ei hannibyniaeth oddi wrth y Deyrnas Unedig ym 1966, ond mae'n dal i fod yn rhan o'r Gymanwlad. Er bod economi Guyana yn ffynnu, yr oedd rhaid i wragedd Guyana feiddio a herio hen draddodiadau i ennill hawliau gwragedd rhyddion; er bod eu sefyllfa yn well o lawer erbyn hyn, y mae'r wlad yn wynebu problemau mawrion o hyd, yn enwedig ynglŷn ag HIV/Aids, sydd yn fater o gonsyrn cynyddol. Sut bynnag, ar ôl sefydlu Pwyllgor Llywyddol ynghyd â Chynllun Strategol Cenedlaethol, gwelir datblygiadau positif a gobaith am y dyfodol.

Yr organydd yn y gwasanaeth oedd Mrs Eurgain Rowlands.

Dilynwyd y gwasanaeth gan luniaeth, yn Festri'r Gerlan, wedi'i ddarparu gan gynrychiolwyr o'r Eglwysi. Ymhlith y teisennau yr oedd rhai blasus wedi'u pobi gan Mrs Nansi Hayes a Mrs Tegwen Pryse yn ôl rysait o Guyana. Aeth sawl un adref gyda'r rysait i'w defnyddio yn eu ceginau eu hunain.

## Salwch

Dymunir llwyr wellhad i Mrs. Betty Lewis, Heol Aberwennol, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus ddechrau Mawrth. Brysiwch wella Betty.

## Pen blwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i dri o wŷr adnabyddus y Borth fydd yn dathlu eu Pen blwydd yn ystod yr wythnosau nesaf.
Bydd Derek, Siop Nisa, yn cyrraedd carreg filltir bwysig yn ei hanes yn ystod Mis Ebrill, a dau o'n hynafgwyr hoffus yn dathlu eu 90 oed, - Mr.Dirk Lloyd, Frondirion, ar y 4ydd o Fai, a Mr.Islwyn Jones, "Wennol", ar yr 11eg o Fai.
Mwynhewch y dathlu!

## Dyrchafiad

Llongyfarchiadau calonnog i Alan Lewis, mab Mr.Berwyn Lewis, Pantglas, (Tŷ Gwyn gynt), ar gael ei ddyrchafu i fod yn Reolwr Cyffredinol, Adran Cefnogaeth Clinigol, Ymddiriedolaeth Iechyd Cenedlaethol Cwm Taf. Dechreuodd yn ei swydd newydd ar Ebrill y 1af.
Mae'r Adran yma yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau, yn amrywio o Fferylliaeth, i Radioleg, Patholeg ac ati.
Ymddiriedolaeth newydd yw hwn, yn cynnwys Ymddiriedolaethau Gogledd Morgannwg, Pontypridd a'r Rhondda.
Pob dymuniad da iddo wrth ddechrau ar ei waith newydd, ac hefyd wrth astudio am radd M.Sc. mewn Rheoli Gwasanaethau Cyhoeddus ac Iechyd ym Mhrifysgol Morgannwg.

## Amser Coffi

Bu'n anodd iawn gael hyd i baned o goffi yn Y Borth yn ystod y misoedd diweddar, ond, bellach, nid oes rhaid i neb farw o syched. Mae Margaret Griffiths wedi dychwelyd i'w hen gynefin ym Mwyty'r Hafren, sydd wedi cael ei drawsffurfio yn Dafarn a Bwyty Ceffyl Y Môr. O hyn ymlaen, bydd coffi, diod a phrydiau ar gael drwy'r dydd. Pob lwc i Margaret a Glynne yn eu menter newydd.

Ar yr un pryd mae Peter Fleming wedi agor Siop Goffi ddeulawr yn Oriel Tir a Môr, Y Stryd Fawr. Dewch i gael 'paned a lluniaeth ysgafn yng nghwmni Peter a Grug, a manteisio ar y cyfle i edrych ar (a phrynu, efallai) y lluniau, printiau a chardiau a arddangosir o'ch cwmpas. Pob dymuniad da iddynt.

## Mrs Jane Elizabeth (Betty) Doyle

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mrs Betty Doyle, Heol Aberwennol, a fu farw yn Ysbyty Bron-glais, ddydd Sul 16 Mawrth, ar ôl cystudd hir. Yr oedd yn 77 oed.

Un o blant Y Borth oedd Betty, a gafodd ei geni a'i magu yn y pentref lle treuliodd ei bywyd. Roedd pob tro yn ddymunol wrth bawb, ond fe ddioddefodd salwch hir gyda dewrder a sirioldeb. Bydd ei cholled yn achos hiraeth a galar i'w theulu ac i'w ffrindiau lawer yn Y Borth.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei gŵr, Mr William (Bill) Doyle, at ei phlant, Anne, Jane, Sarah ac Andrew a'u teuluoedd, ac at ei holl deulu yn y pentref ac y tu hwnt.

## Bore Coffi

Cynhaliwyd Bore Coffi ym Mwyty Ceffyl Y Môr, dydd Llun Y Pasg, 24 Mawrth, pan godwyd £325.37 er budd Eglwys Sant Mathew. Diolchir yn gynnes i Margaret Griffiths, a drefnodd y bore ac a roddodd y coffi, ac i staff Ceffyl Y Môr.

## Parti Pen blwydd

Dathlodd y Parchg Ddr David Williams ei ben blwydd yn 75 oed gyda pharti yn Neuadd Gymunedol Y Borth, ddydd Sadwrn, 29 Mawrth. Roedd y Neuadd yn llawn a phawb yn mwynhau'r achlysur. Difyrrwyd y partiwyr gan Mr Michael James, wrth y piano, a chan Mrs Rosa Davies, a ganodd rai o'r hen hoff ganeuon. Daeth y prynhawn i ben â gwasanaeth byr. Darparwyd bwffe blasus gan Margaret Griffiths, Ceffyl y Môr.

Diolchwyd i Michael, Rosa a Margaret ac i'r Parchg David Williams gan Mr Bill Lloyd, Cadeirydd Sirol y Lleng Brydeinig.

## Dawns Amser Te

Trefnwyd dawns Amser Te gan Mrs Rosa Davies yn Neuadd Gymunedol Y Borth, ddydd Mercher 2 Ebrill, er budd y Lleng Brydeinig. Daeth nifer dda o ddawnswyr a gwylwyr ynghyd i fwynhau'r dawnsio a'r miwsig, yn ogystal a'r lluniaeth ardderchog, wedi'i ddarparu gan gefnogwyr y Lleng Brydeinig. Diolchwyd iddynt oll gan Mr Aran Morris, Cadeirydd y Lleng Brydeinig yn Y Borth, a chan y Parch Ddr. David Williams.

## Sefydliad Y Merched

Cadeiriwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Y Borth, nos Fercher, 20 Mawrth, gan Margaret Hudson. Llongyfarchwyd i Freda Darby, Betty Horton, Margaret Hudson, Margaret Griffiths a Pat Pearson a ddaeth yn ail i SYM Cenarth yng Nghynghrair Dartiau Ffederasiwn Ceredigion. Wedyn, fe gafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mr Michael Freeman o Amgueddfa Ceredigion, a ddaeth ag amrwywiaeth o hen arfau, y rhan fwyaf wedi'u cysylltu â'r môr neu ag amaethyddiaeth, gan ein gwahodd ni i'w henwi. Diolchwyd iddo gan Ann Newby.

Margaret Hudson oedd y Cadeirydd yn y cyfarfod nos Fercher, 2 Ebrill. Difyrrwyd yr aelodau gyda chwis am flodau wedi'i ddyfeisio gan Ann Newby. Da yw gwybod bod Olwen England yn gwella ar ôl torri ei migwrn mewn cwymp yn ei chartref; edrychwn ymlaen at ei gweld hi'n ôl gyda ni yn y cyfarfod nesaf.

## Clwb yr Henoed

Yr oedd aelodau o Glwb yr Henoed yn hynod o ffodus i gael diwrnod bendigedig ynghanol wythnos o dywydd diflas, pan aethant ar wibdaith i Sir Feirionydd, dydd Iau, 27 Mawrth.

Treuliwyd y bore yn Aberdyfi, lle mwynhawyd coffi yn yr awyr agored a chinio hanner dydd. Ymlaen wedyn ar daith trwy olygfeydd heirdd Parc Cenedlaethol Eryri. Daeth y wibdaith i ben a'r cyfle i edrych o gwmpas a chael te prynhawn yng Nghanolfan Grefftau Corris.
Diolch yn fawr i Joy Cook, Ysgrifenyddes y Clwb, a drefnodd y cyfan.



Yn y llun gwelir rhai aelodau o'r adran iau sy'n chwarae ar y cwrs ymarfer gyda'u hyfforddwr Sue Wilson.



Yn y llun o'r chwith i'r dde mae Rob Ryder (hyfforddwr), Erwan Izri (Penrhyn-coch), Luke Williams (Bow Street) a Ioan Lewis (Bow Street), Dai Linquist (trefnydd Dyfed).

## Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

Cafwyd dechreuad i dymor newydd Adran Iau Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las wrth i 10 aelod newydd ymuno ac adran y dysgwyr yn sesiynau Tri-Golff yn Neuadd Cymuned Y Borth eleni.

Yn 2007 dewiswyd 5 aelod o'r adran iau i hyfforddiant Dyfed, eleni eto mae 3 aelod arall o'r adran iau wedi eu dewis.

Canlyniadau
Sul 2il Mawrth – Cystadleuaeth Medal

1af Stephen Bailey (Y Borth) 91:30:61 (9 cefn)
2il Jac Morris (Y Borth) 83:22:61
3ydd Andrew Gittins (Llanbadarn Fawr) 101:36:65

Medal Misol Mawrth
1af Zach Galliford (Y Borth) 77:5:72
2il Angharad Basnett (Bont-goch) 99:20:79
3ydd Luke Williams (Bow Street) 108:26:82

Gross gorau: Matthew Evans (Capel Bangor)

# CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 18 Mawrth, yn Ysgol Trefeurig. Yn absenoldeb y cadeirydd, cadeiriwyd gan yr Is-gadeirydd, Y Cyng. Richard Owen. Roedd chwe chynghorydd arall yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir, Dai Suter.

Nodwyd na fyddai ail ran y cynllun Llwybr Diogel i'r Ysgol yn digwydd ar hyn o bryd ar wahân i roi wyneb gwrth-sgidio ar y ffordd ger Y Bwthyn. Roedd cais wedi mynd i Lywodraeth y Cynulliad am i'r arian oedd yn weddill gael ei wario ar oleuo'r llwybr newydd drwy'r cae chwarae.

Adroddwyd o Weithgor Neuadd y Penrhyn fod yr holiadur bellach yn derfynol ac roedd y gweithgor yn ystyried beth oedd y ffyrdd gorau o sicrhau ymateb da iddo gan yr ardalwyr.

Roedd y Cyngor Sir yn bwriadu ymestyn y cyfyngiad cyflymder 40 mya o'r fan bresennol (rhwng y pentref a Gogerddan) hyd at groeslon Gogerddan, a hefyd roedd bwriad i gael cyfyngiad 50 mya ar y ffordd fawr (A4159 o Bow Street i Gelli Angharad) o boptu'r groeslon. Roedd y Cyngor yn gefnogol i hyn, ond yn credu y gellid mynd ymhellach a chael cyfyngiad 40 mya ar y ffordd fawr yn ogystal, gan mor beryglus oedd y traffig wrth y groeslon.

Roedd y Clerc wedi chwilio i mewn i fater carreg goffa Dafydd ap Gwilym, ac wedi ffeindio mai'r Academi Gymreig oedd wedi bod yn gyfrifol am osod y garreg. Roedd y Cyngor wedi cynnig unwaith o'r blaen y byddai'n fodlon cymryd cyfrifoldeb am y garreg ond doedd dim wedi digwydd y tro hwnnw. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn gwneud yr un cynnig eto; pe dymunai'r Academi drosglwyddo cyfrifoldeb am y garreg, byddai'r Cyngor yn fodlon ei hymgeleddu.

Fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol, roedd y Cyngor Sir yn gwahodd datblygwyr, tirfeddianwyr a phwy bynnag arall oedd â diddordeb i enwebu safleoedd ar gyfer eu cynnwys yn y cynllun datblygu ar gyfer defnydd penodol, boed yn ddatblygiad tai, datblygiad diwydiannol, cae chwarae neu beth bynnag arall. Cafodd y cynghorwyr gopïau o'r ffurflenni priodol ac roedd hysbysrwydd cyffredinol wedi'i roi i'r mater. Byddai angen i'r cynigion fod i mewn erbyn 1 Mai, fan bellaf. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynd i gyfarfod yn Aberystwyth y noson ganlynol lle'r oedd y mater hwn yn mynd i gael ei egluro ymhellach. Hefyd cytunodd yr Is-gadeirydd i fynd i gyfarfod yn Aberaeron ar 26 Mawrth lle y byddai swyddogion o'r Swyddfa Bost yn egluro eu cynigion ar gyfer cau swyddfeydd post yng Ngheredigion. Nid oedd swyddfa Penrhyn-coch mewn perygl ar hyn o bryd, ond roedd y Cyngor yn gofidio am y bygythiad i swyddfeydd cyfagos megis un Tal-y-bont.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd y Penrhyn nos Fawrth, 15 Ebrill.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDIOL

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonog i John ac Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, ar enedigaeth eu hwyres fach gyntaf - Elain Grug - merch fach i Eirian a Dylan.

Llongyfarchiadau hefyd i Paul a Norma Stephens, Blaen-ddôl, ar enedigaeth eu hwyres, April Jane, merch fach i Debbie a'i phriod sydd yn byw yng Nghanolbarth Loegr.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Nancy Evans, Ty-poeth, ar farwolaeth gŵr ei chwaer Sian yn Llangurig ar ôl cystudd blin dros nifer o flynyddoedd. Cydymdeimlwn hefyd gydag Aneurin Morgan, y Byngalo, ar farwolaeth modryb yn Llundain ac â Vivian Morgan, Is-y- coed, ar golli perthynas yn Llanbadarn.

GWESTY
Tynycornel
HOTEL
Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9AJ
Gwesty moethus a chartrefol gyda golygfeydd godidog, bwyd blasus a chroeso cynnes. Beth am gael diwrnod i'w gofio ar ddydd eich Priodas, gyda'r cyfan o dan yr un to, a lleoliad perffaith ar gyfer tynnu'r lluniau holl bwysig yna.
Cinio dydd Sul traddodiadol; Prydau bar canol dydd; Te Cymreig; Cinio nos; Cinio busnes; Ystafell i gynnal pwyllgor neu gyfarfod gyda bwffe; Te angladd; Achlysuron arbennig - pen blwydd a phen blwydd priodas.
AM FWY O FANYLION FFONIWCH NI AR (01654) 782 282

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Y TINCER

# BOW STREET

## Suliau Mai

**Y Garn**
**10 a 5**
www.capelygarn.org
4 Beti Griffiths Bugail
11 Capel y Morfa, Aberystwyth
10.00 a 5.30
18 Bugail
25 Richard Llwyd Jones

Noddfa
4
11 Capel y Morfa, Aberystwyth
10.00 a 5.30
18
25

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs John Owen a'r teulu, Swyddfa'r Bost ar farwolaeth tad John yn ddiweddar.

## Blwyddyn y Merched

A sylwoch chi wrth ddarllen *Y Tincer* mis Mawrth mai Blwyddyn y Merched yw hi? Mared, Lleucu Tryfan, Gwenan Mair, Emily, Seren Mari, Heledd, Elen Eleri.

Dyma ddwy fach arall a aned ym mis Mawrth – Megan Rhianna, merch Ben a Nickey yn Lingfield, wyres i Gareth a Sue Jonoes, Aberceiro a nith i Helen;

- Ffion Wynne, merch Gwen a Gethin yn Nolgellau, wyres i Alan Wynne ac Ann Jones, Trem-y-ddôl.


Casglu nwyddau i Bosnia, Festri'r Garn, 15 Mawrth

## Priodas ruddem

Llongyfarchiadau i Ambrose a Margaret Roberts, Crud yr Awel, ar ddathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar.

## Gwellhad buan

Gwellhad buan i Mary Thomas, Tŷ Clyd ar dderbyn llawdriniaeth yn ysbyty Amwythig.

## Capel y Garn

Bore Sadwrn, Mawrth 15ed agorwyd y Festri unwaith yn rhagor i dderbyn cymorth i`r anghenus ym Mostar, Bosnia. Cafwyd ymateb ardderchog i`r apel gan sicrhau llwyth sylweddol iawn o wyddau a chyfraniadau ariannol. Diolch am gefnogaeth eglwysi Gofalaeth y Parchedig Wyn Morris, Eglwysi Llanfihangel Genau`r-glyn a Llangorwen, Capel Noddfa, Cartref Tregerddan a llu o gyfeillion. Rydym yn ddyledus i`r rhai fu`n casglu a pharatoi`r bocsys, yn croesawu yn y Festri ac yn llwytho`r bocsys trymion ganol dydd. Roedd y trefniadau yng ngofal Grwp Help Llaw Capel y Garn.

## Ar wella

Gobeithio bod Mrs Sian Evans, 42 Maes Afallen, yn dal i wella ar ol bod dan lawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar ac y bydd hi`n medrui bod yn ôl wrth y gwaith o gasglu newyddion i`r *Tincer* yn yr ardal yn fuan.

# Cyngerdd yr Urdd Apêl Tirymynach


Mr Brian Davies ein Llywydd a Teleri Morgan.


Ensemble Ysgol Pen-glais.


Parti Unsain Ysgol Rhydypennau.


Tîm Pêl-droed Bow Street o dan 12 oed ar ôl ennill cwpan 'Tesco' Canolbarth Cymru. Pob lwc yn y rownd nesaf a diolch i'r hyfforddwyr Richard Lucas a Rhys Lewis.



Fe aeth pump o fechgyn ardal Aberystwyth i Luxembourg yn ddiweddar i chwarae yn nhîm cefnogwyr Cymru. Chwaraewyd y gêm yn y prynhawn cyn y gêm fawr er mwyn i'r cefnogwyr ddod i adnabod ei gilydd a chodi arian tuag at gartref plant lleol. Enillodd Cymru o 10 gôl i 1 i gynnal ei rhediad da o ennill; yr oedd tri o ardal y Tincer, sef Huw Roffe (Clarach), Gareth Edwards (Llandre) a Rhys Lewis (Bow Street) a dau o Lanbadarn, sef Wil Johnson ac Owen Williams.



Emyr Evans. Ysgol Penweddig. yn dawnsio'r glocsen.

## GOGINAN

### Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i ddau o drigolion yr ardal - sef Islwyn Jones, TirNaNog, Cwmbrwyno ac Arthur Williams, Penrhiwlas, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

## DÔL-Y-BONT

### Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus a phob dymuniad da i Dulyn Cory, Bryngwyn, a fu'n dathlu ei ben blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

## CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Mewn cyfarfod o'r Cyngor ar nos Iau 27 Mawrth a lywyddwyd gan yr is-gadeirydd, y Cyng. Owain Morgan, cyflwynwyd anrheg i Mrs Mary Thomas, Tŷ Clyd, y cyn glerc fel gwerthfawrogiad o'i gwaith yn glerc Cyngor Tirymynach am gyfnod o ugain mlynedd. Darlun oedd yr anrheg o Bow Street a baentiwyd gan Alan Percy Walker. Cyflwynwyd y darlun ar ran y Cyngor i Mary gan yr aelod hynaf sef y Cyng. Vernon Jones. Yn ychwanegol cyflwynwyd anrheg o lyfr gan y Cyng. Penri James, y Cynghorydd Sir, fel gwerthfawrogiad o'i chymorth iddo yntau hefyd.

O'r diwedd cafwyd ateb o'r adran ffyrdd parthed arwydd "Bow Street – gyrrwch yn ofalus" i'w osod o dan yr arwydd presennol yn y Lon Groes. Bydd yr arwydd yn costio £126.50, ond fe gyst £200 o bunnoedd i'w osod. Unwaith eto rhaid hysbysu'r awdurdod bod cynghorwyr Tirymynach yn fodlon gosod yr arwydd am ddim. Penderfynwyd galw am gyfarfod safle.

Adroddwyd o ran gwybodaeth bod Mast Network Rail i'w godi cyn diwedd Mawrth. Mae trafodaethau digon gobeithiol yn mynd ymlaen ar hyn o bryd rhwng Ceredigion a'r gwahanol asiantaethau parthed y rhan o ystâd Maesafallen sydd heb ei mabwysiadu. Ni ddaeth amcan brisiau am osod lampau golau ym Mlaenddol a Thregerddan i law hyd eto. Disgwylir i'r ynys o flaen Ysgol Rhydypennau gael ei chwblhau cyn diwedd gwyliau'r Pasg.

Penderfynwyd anfon llythyr at awdurdod y Swyddfa Bost yn cadarnhau mor bwysig yw cadw Swyddfa Bost Bow Street ar agor. Nid yw'r Swyddfa hon o dan fygythiad ond teimlid ei bod yn iawn i ni ddangos ein cefnogaeth.

Derbyniwyd gwybodaeth bod cais cynllunio wedi ei ganiatáu am floc toiled ym mhentref gwyliau Bae Clarach. Ni ddaeth unrhyw gais arall i law y mis hwn. Ond derbyniwyd ffurflenni yn gofyn i'r Cyngor neu unrhyw unigolyn arall yn y Gymuned i nodi ardaloedd tebygol ar gyfer eu datblygu fel mannau i godi tai neu ar gyfer adloniant. Trafodir hyn yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor.

Penderfynwyd ysgrifennu at Arriva yn cwyno ar ran trigolion Afallen Deg sydd yn gorfod cerdded i'r arosfa bws gyferbyn a'r Swyddfa Bost. Ysgrifennir hefyd at Asiantaeth Iechyd yr Amgylchedd yn cwyno bod llygod mawr yn denantiaid yn yr ysbwriel sydd wedi ei adael ar dir lle'r oedd tai "Thread and Needle" ger y Welsh Black. Daeth cwynion am y sbwriel sydd yn cael ei adael ar hyd ochr y ffordd fawr yn Bow Street, ysgrifennir unwaith eto at asiantaeth y priffyrdd.

Bydd y cyfarfod nesaf, sef yr olaf cyn yr etholiad, os bydd un, ar 24 Ebrill.

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**
**Mai**
4 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
11 Cymanfa yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth 10.00 a 5.30
18 2.30 Y Parchg Alwyn Daniels
25 10.30 Gweinidog

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Heledd Gwyndaf, Maesyrefail gynt, a Hywel yn Nhalgarreg ar enedigaeth mab bach – Gwydion Caradog Dafis.

## Ymddeol

Dymuniadau gorau am ymddeoliad hir a hapus i Dafydd Thomas, Bysaleg a ymddeolodd o'i swydd gyda Chyngor Sir Ceredigion ddiwedd Mawrth.

## Clwb Cinio Cymuned Penrhyn-coch

Dyma'r dyddiadau am y mis nesaf Ebrill 23 Mai 14 28
Am fwy o fanylion cysyllter â Egryn Evans 828987

## Eglwys Sant Ioan

Ar nos Wener 7fed o Fawrth, cynhaliwyd noson agored ddiddorol dros ben yn neuadd yr eglwys yng ngwmni Richard Ireland (Uwch-Ddarlithydd yn y Gyfraith, ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth). Testun y noson oedd "The prisoner his a most vile creature", bywyd dyddiol mewn carchar Cymreig yn oes Fictoria. Cawsom ein tywys yn ôl mewn amser i ddilyn bywyd dyddiol rhyw bum caethwas, bras hanes yr unigolion eu trosedd a'u cosb, a'u hymborth dyddiol. Dau gaethwas a drafodwyd amdano oedd Evan Jacob a Hannah Jacob a ddaeth o flaen eu gwell yn y Brawdlysoedd ar gyhuddiad o achosi marwolaeth eu merch Sarah Jacob (1857-69), sef 'The Welsh Fasting Girl'. Dedfrydwyd Evan i 12 mis o lafur caled ac fe ddedfrydwyd Hannah i chwe mis o lafur caled.

Diolchwyd yn fawr iawn i Mr Ireland am roi ei amser i ddarlithio a ni.

'Roedd yna olygfa liwgar i groesawu'r gynulleidfa yng nghefn yr eglwys ar Sul y Blodau. Bu nifer o'r gwragedd yn brysur wrth baratoi basgedi yn llawn o ddanteithion, planhigion , cardiau a siocledi'r Pasg a'r elw at gronfa'r eglwys. 'Roedd nifer dda yn bresennol i dderbyn y croesau palmwydd yn ystod y gwasanaeth. Dyma ddechrau ar gyfnod prysur o wasanaethau'r Pasg yn yr eglwys.

Yn ystod gwasanaeth y cymun ar ddydd Iau Cablyd, bu'r ddefod o olchi traed y gynulleidfa gan y ficer fel arwydd o ostyngeiddrwydd. . Dyma gyfnod diosg yr allor o flodau ac unrhyw addurniadau. Gadawyd yr eglwys mewn distawrwydd ar ddiwedd y gwasanaeth.

Ar ddydd Gwener y Groglith cynhaliwyd gwasanaeth y Litwrgi rhwng 2 a 3 o'r gloch.

Cynhaliwyd gweithdy'r plant ar fore Sadwrn y Pasg, yn neuadd yr eglwys, bu'r plant yn creu eitemau yn gysylltiedig â'r ŵyl. Cafwyd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y bore. Diolch unwaith yn rhagor i bawb a fu'n gyfrifol am drefnu'r gweithdy llwyddiannus.

Ar wylnos y Pasg am 8 y.h. dilynwyd tair rhan o'r gwasanaeth gan gychwyn â'r gwasanaeth goleuni. Goleuwyd y gannwyll Pasg cyn ei gosod yn y man priodol ac yna cynnwyd canhwyllau'r gynulleidfa o'r rhin gannwyll, gan ddilyn 'roedd Litwrgi'r Gair ac yna adnewyddu'r addunedau bedydd.

Ar ddydd Sul y Pasg, dathlwyd y Cymun Bendigaid gyda chynulleidfa dda yn bresennol. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno'n hardd iawn ar gyfer yr ŵyl.




Diolch i un o ddarllenwyr y ***Tincer*** am yrru y llun yma – arwydd godwyd ar y ffordd trwy Benrhyn-coch ddiwedd Mawrth.

## Diolch

Hoffai Cerys Humphreys ddiolch i bawb a gefnogodd y cyngerdd ym Methel, Aberystwyth ym mis Mawrth gyda Chôr ABC o dan arweiniad Angharad Fychan, gydag eitemau gan Crwys Evans ac Esyllt Ifan. Codwyd £425 tuag at waith MENCAP.

## Merched y Wawr

Nos Iau, 13eg o Fawrth, buom yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni cangen Merched y Wawr Mynach a changen Genau'r-glyn. I gychwyn y noson fe groesawodd Mair Evans, ein llywydd, bawb i'r cyfarfod a gwahoddwyd pawb i gymryd o'r bwffe a baratowyd gan Ferched y Wawr y Penrhyn ac i eistedd i lawr i fwynhau'r wledd flasus.



Sgwrsio ar ôl y cinio



Elan Closs Stephens yn annerch yng Nghinio Gwyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn nos Sadwrn 15 Mawrth yng Ngwesty'r Pedwar Tymor

Ar ôl sgwrs a'n gilydd dros swper fe gyflwynodd ein Llywydd rhai o blant Ysgol Gynradd Penrhyn-coch gyda'u prifathro Emyr Pugh-Evans ac athrawon eraill o'r ysgol ymlaen i'n diddori gyda gwahanol eitemau. Cafwyd y canlynol yn cymryd rhan:

Parti llefaru. Iestyn yn canu. Anwen (telyn). Rhys yn llefaru. Gwenno (piano). Thomas yn canu. Grŵp/Disco. Rhydian (gitâr). Becky yn canu. Mared (telyn). Catrin yn llefaru. Catrin (ffidil). Gwennan yn llefaru. Mared yn canu. Parti unsain. Parti pawb ar y diwedd.

Diolchwyd i'r plant a'r athrawon am yr holl waith roeddent wedi rhoi i mewn i wneud y noson mor lwyddiannus. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchwyd gan Mynach a Genau'r-glyn am y gwahoddiad i ddod atom. Noson wych dros ben. Gwnaeth Glenys Morgan y diolchiadau ar ran cangen Penrhyn-coch.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Nan Balfour a fu yn yr ysbyty ar ôl cwympo. Hefyd i Keith Morris a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Hefyd dymunwn wellhad buan i Menna Jenkins Maesaleg sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bron-glais.

## Pêl-droed

Llongyfarchiadau i Jonathan Evans, Gwarcaeau, am ei lwyddiant yn y byd pêl-droed. Mae wedi bod allan yn Slovakia ar ran Cymru yn rhan o sgwad o 18 ohonynt. Mae Jonathan yn chwarae i Academi pêl-droed Aberystwyth ond yn gobeithio cael ymuno ag Academi pêl-droed Caerdydd. Bu yn chwarae gydag Academi Caerdydd yn erbyn Academi Arsenal yn ddiweddar.

Mae Jonathan yn mynychu Ysgol Pen-glais. Ein dymuniadau gorau iddo yn y dyfodol.

## Cymdeithas Ymddeolwyr

Dydd Mercher yr ail o Ebrill, daeth Mrs Gweneira Raw Rees (Cydlunydd Strategaeth Pobl Hyn Ceredigion) i siarad â ni am y gwaith sydd yn cael ei wneud o dan y cynllun i mewn a rhwng y gwahanol adrannau. Yn ystod anerchiad diddorol cawsom drafod a mynegi barn, a phawb yn cymryd rhan. Ar ddiwedd prynhawn gwerthfawr iawn cawsom baned a biscedi wedi eu paratoi gan Ceri a Margaret Evans. Roedd y raffl yng ngofal Mrs Joan Dare a Mrs Connie Powell a'r enillydd y mis yma oedd Mrs Kathleen Williams. Mis nesaf ar y 7fed o Fai, fe fydd Mr Dennis Bates yn siarad â ni am ei ymweliadau a gwledydd tramor.


## Sefydliad y Merched Penrhyn-coch

Mewn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys St Ioan, nos Fercher 19fed o Fawrth, ar ôl croeso ein llywydd Mrs Jenny Evitts, fe lanwon ni ein ffurflenni aelodaeth ac fel aelodau newydd sbon eisteddon ni nol i wrando ar un o'n haelodau, sef Mrs Jenny Rees, yn siarad â ni am waith OXFAM, sydd yn agos at ei chalon, gwaith eang a phwysig iawn. Ar ôl anerchiad diddorol cawsom luniaeth ysgafn a baratowyd gan Mrs Vicky Thomas a Mrs Maureen Kinninmonth. Enillwyd y raffl gan Mrs Ann Madge a Mrs Maureen Padgett.

Am 7.30 yh, nos Fawrth 2il o Ebrill, fe gwrddom yn Neuadd y Penrhyn ac wedi trafod rhai o ddigwyddiadau o ffurflen fisol ffederasiwn Ceredigion, cawsom wers ar wneud siocledi gan Mrs Jo Davies. Wedi blasu rhai o'r danteithion yr oedd hi wedi eu gwneud cawsom baned a biscedi wedi eu paratoi gan Mrs Liz Lloyd a Mrs Ann Madge. Roedd y raffl yng ngofal Mrs Mandy Hughes a'r enillwyr oedd Mrs Maureen Kinninmonth a Miss Margaret Lile. Y tro nesaf, sef ar y 23ain o Ebrill, fe fydd Mrs Ann Jones yn ein dysgu ni sut i osod blodau yn gelfydd.

## Mr. E. L. Davies (Ieu/Goalie)

Bu farw Ieuan, Elan, 16 Maesyrefail, yn frawychus o sydyn yn Ysbyty Bron-glais ar 9fed Ionawr, yn 69 oed.



Yn enedigol o Ben-rhiw, ger Bryn-hir, yr ieuengaf o naw o blant, derbyniodd Ieuan ei addysg gynnar yn Ysgol Fach Chancery, ac yna yn Ysgol Uwchradd Dinas ar safle'r Hen Ysgol Gymraeg yn Heol Alexandra, Aberystwyth.

Ar ôl cyfnod fel gwas ffarm yng Nghefnmelgoed, Blaen-plwyf, ymunodd â Chyngor Sir Ceredigion. Ym 1963 priododd Margaret, un o ferched Nantbyr Uchaf, Tyn-y-graig, Ystrad Meurig, yng Nghapel Caradog, Tyn-y-graig, gan sefydlu cartref yn Nhŷ Capel Llanilar; yno ganwyd eu merch Carol, ym 1964, cyn iddynt symud i 97 Maesyderi, Tal-y-bont, lle ganwyd eu mab Andrew yn 1968. Ym 1976 symudodd y teulu i'r cartref presennol.

Yn weithiwr crefftus a chydwybodol, daeth yn enwog am safon uchel ei waith gyda'r JCB tra'n gweithio i Sandy ac Alan Jones, Clarach, cyn sefydlu busnes JCB llewyrchus ar liwt ei hun yn y 90'au cynnar. Penderfynodd ymddeol, gan werthu ei ffrind gorau, y JCB, pan yn 66 oed. Ar ôl dwy flynedd adref yn trin yr ardd, dychwelodd i weithio'n llawn amser gyda Mr Cliff Dowse, Glanyrafon, Llanbadarn, yn trafod yr 'Atlas 360' tan ei ddiwrnod olaf.

Ei flaenoriaeth erioed oedd gofalu am ei deulu, ac yr oedd ef a Margaret yn edrych ymlaen i ddathlu 45 mlynedd o fywyd priodasol ar 16eg Mawrth eleni; roedd yn ymfalchïo yn ei wyrion a'i wyresau Celly, Dean, Deanna, Daniel, Ceri a Leanne, gan feithrin perthynas agos a chynnes gyda hwy.

Fe ddaeth tyrfa luosog i'r angladd cyhoeddus yn Eglwys St. Ioan, Penrhyn-coch dan ofal Y Parchedig J P Livingstone; yr organydd oedd Mrs Eirwen Hughes. Rhannwyd y taflenni gan Wardeiniaid yr Eglwys, Mrs Edwina Davies a Mrs Gweneira Marshall. Casglwyd y swm anrhydeddus o £1,000 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru er cof amdano.

Gwaith a gorffwys bellach wedi mynd yn un.

Y prif alarwyr oedd Margaret (priod) Carol a Ken, Andrew a Heather (plant a phlant-yng-nghyfraith) Celly, Dean, Deanna, Daniel, Ceri a Leanne (wyrion a wyresau) Mir, Edith, Bessie a Wil, Owen ac Ann a Beni, (brodyr, chwiorydd, brawd a chwaer yng-nghyfraith)


Bronwen, Isaac, Alun a Glenys, Caradog, Phillip a Tegwen, Buddug a Gwyn, Ann a Gwilym (brodyr a chwiorydd yng-nghyfraith) a llu o berthnasau a ffrindiau eraill. Rhoddwyd blodau ar y bedd gan Margaret, gan y plant, a gan y wyrion a'r wyresau.

Dymuna Margaret, Carol ac Andrew ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniasant o golli priod, tad, tad-yng-nghyfraith, tad-cu, brawd, brawd-yng-nghyfraith ac ewythr annwyl. Diolch am y llu cardiau, blodau, cacennau, galwadau ffôn, a'r ymweliadau gwerthfawr. Mae'r teulu yn ddiolchgar iawn i'r Parchedig J.P.Livingstone am bob cymorth ac i Mr. Ian Huws, Pontrhydfendigaid, am drefnu angladd mor deimladwy, i'r organydd Mrs. Eirwen Hughes, ac i'r Wardeniaid Mrs. Edwina Davies a Mrs Gweneira Marshall. Diolch i Mr.Gwyn Evans M.B.E am y deyrnged, ac i Ieuan Jones, Wyn Evans, Christopher Jones, Pete Egan ac Allan James am helpu Andrew a Dean fel archgludwyr; hefyd i Buddug a Gwyn Evans am flodau'r Eglwys, Vince ac Alison a staff Llety Parc, i bawb oedd yn bresennol a phawb a gyfrannodd mor hael i'r swm anrhydeddus o £1000, tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

## Diolch

Hoffai Siôn Wyn, 38 Dolhelyg, ddweud diolch am y cardiau, galwadau ffôn, a'r anrhegion a gafodd ac i bawb a wnaeth alw i'w weld ar ôl iddo ddod adref yn dilyn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili y mis diwethaf.

# CLARACH/LLANGORWEN



Cyflwynwyd siec o £670 gan Mrs. Vicki Edwards, trysorydd Eglwys yr Holl Saint Llangorwen i Mr. David Jenkins o Fudiad y Bâd Achub Aberystwyth ar ran plwyfolion yr Eglwys. Codwyd yr arian ym more coffi y Pasg a drefnwyd gan yr eglwys yn Neuadd Rhydypennau ar y 15fed o Fawrth. Yn y llun hefyd mae - David Phelps, Dai Lloyd, Carwyn Williams, a Bill Jones (Cadeirydd gorsaf RNLI Aberystwyth).

## Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion

Cynhaliwyd Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion nos Wener 14 o Fawrth yn Ysgol Gyfun Pen-glais. Cafwyd sesiwn o gystadlu o safon uchel iawn. Ymhlith rhai o'r ieuenctid o Fforwm yr Ifanc Ceredigion fu'n arwain yn broffesiynol iawn roedd Elin Huxtable, Penrhyn-coch.

Llongyfarchiadau i'r canlynol

Ysgol Gyfun Pen-glais am ennill dwy gystadleuaeth Partion cerdd dant – Bl. 7.8.9. a Bl. 13 ac iau (Dysgwyr) o dan hyfforddiant eu hathrawes Jane Leggett, Dolau. Cynhelir y ddwy gystadleuaeth yma dydd Iau yr Eisteddfod.

Parti ymgom Bl. 7-9 Ysgol Gyfun Penweddig (hyfforddwraig Alexis Barnard) –(dydd Mercher)

Elin Wallace, Capel Madog, enillodd yr unawd telyn oedran Bl 7-9 (Mercher)

Bu dwy arall o athrawon yr ysgol sy'n byw yn ardal y *Tincer* yn brysur – Llio Adams, Penrhyn-coch arweiniodd y Côr Merched S.A. Bl 13 ac iau a Sian Owen, Bow Street fu'n llwyddiannus gyda'r Côr Bechgyn T.B. Bl. 13 ac iau a'r Côr S.A.T.B/ Bl. 13 ac iau. Clowyd yr Eisteddfod gyda Sian Owen yn arwain Corau S.A.T.B. Tregaron a Phenweddig mewn perfformiad gwefreiddiol o'r darn gosod – trefniant Patrick M. Liebergen o'r Gloria o Heiligmesse (Haydn).

Pob hwyl iddynt i gyd yn Eisteddfod yr Urdd ym Mae Penrhyn, ger Llandudno ddiwedd Mai.

# "OS MÊTS"

Gweithgareddau Gwanwyn 2008 a'r pen blwydd cyntaf

Mae "Os Mêts", Cymdeithas Gyd-enwadol Ieuenctid Gogledd Ceredigion, ar fin cyrraedd carreg filltir pen blwydd. Wele adroddiad Gwen a Gwilym Sims-Williams o Gapel Madog am y cyfnod dechreuol.

Mr Glyn Saunders Jones a Mr Dewi Hughes yn bennaf a aeth i'r afael â threfnu a pharatoi'r rhaglen beilot lwyddiannus a gafwyd yr adeg hon y llynedd, pan gawsom noson yn Theatr y Werin, sesiwn nofio yng Nghlarach, gweithdy theatr, ymweliad â throfannau'r Pili-Palas yng Nghwmrheidol, a chwaraeon a barbiciw ar draeth Ynys-las. Roedd digon o amrywiaeth a hwyl rhwng popeth, ac roedd pobl ifainc o bob cwr o'r ardal wedi ymuno. Cychwynnodd rhaglen 2007-8 ddechrau mis Hydref gyda sesiwn o chwaraeon a sgyrsiau gan griw Coleg y Bala. Roedd yn dda cael cyfle i drafod, yn ogystal ag i chwarae. Da fyddai petai mwy wedi dod i'r cyfarfod hwn. Roedd y sesiwn nofio ac ymlacio yn jacuzzi Glany-môr wedi denu nifer go dda, fodd bynnag, fel y gwnaeth yr ymweliad â phantomeim Theatr Felin-fach ym mis Rhagfyr. Nosweithiau yng nghwmni'r Parchedigion Wyn Morris a Richard Lewis a gafwyd yn y flwyddyn newydd. Tristwch mawr inni oedd clywed am farwolaeth sydyn Siôn Ifan Evans o Goleg y Bala: gohiriwyd y noson a oedd i'w chynnal ganddo ef a'i gydweithwyr. Roedd y Noson Gawl a Chwis a gynhaliwyd ar 27 Chwefror fel rhagflas o Ddydd Gŵyl Ddewi yn sbort — gyda Lyn Lewys Dafis o'r Llyfrgell Genedlaethol yn gwisfeistr hwyliog heb ei ail. Mae ei ymateb positif yntau i'r noson i'w weld ar flog difyr Lyn ynghyd â rhai o'r cwestiynau a osodwyd, a nifer o luniau. Ewch i weld y cwbl ar http://blogdogfael.org./page/2/ .Cyn y cwis, cawsom fwyd cartref blasus wedi'i baratoi gan dîm o gogyddion dan arweiniad Mrs Vera Lloyd. Diolch iddyn nhw i gyd. Mrs Lloyd hefyd sydd wedi gwneud y trefniadau ar gyfer y fenter ddyngarol, sef prynu geifr i helpu'r tlodion yn yr Affrig. Bydd ei chywion Pasg ar werth er mwyn codi arian. Ar ddiwedd y noson fe deimlon ni fod y clwb yn mynd o nerth i nerth, a gobeithio y bydd nifer dda'n dod eto i fwynhau'r gweithgareddau amrywiol a'r cymdeithasu wedi'r Pasg..

Gwen a Gwilym (Madog).





Bu aelodau Os mêts yn gwneud gwaith dyngarol trwy gasglu arian mân fel rhan o ymgyrch Oxfam i brynu geifr i deuluoedd tlawd yn Affrica. Llwyddwyd i godi hyd yma £291 – felly bydd 12 o deuluoedd yn elwa o'r ymdrechion hyn. Carem ddiolch i bawb am eu cyfraniadau a chefnogaeth ac yn arbennig i Mrs Vera Lloyd am ei gweledigaeth ac arweiniad.

# LLANDRE

## Eglwys San Mihangel Genau'r-glyn

Unwaith eto rydym yn ddiolchgar i Liz a Mike Collison am ein gwahodd i fwynhau eu lletygarwch ac ysblander eu casgliad o eirlysiau. Derbyniwyd rhoddion o £137 at yr achos.

Trefnwyd cinio elusennol y Grawys yn Ysgoldy Bethlehem ym mis Mawrth. Diolch i'r gwragedd a fu'n brysur yn paratoi'r bwyd, a phawb a gyfrannodd at lwyddiant y fenter. Fe ddanfonir siec o £500, sef cyfanswm elw'r ddau achlysur i gronfa Hosbis Tŷ Hafan.

## Treftadaeth Llandre

Y siaradwr yn ein cyfarfod nesaf fydd yr hanesydd Gerald Morgan ar y testun - "Pobl Llanfihangel Genau'r-glyn yn yr 17eg Ganrif". Cynhelir y cyfarfod yn Ysgoldy Bethlehem am 7.30 og ac mae croeso cynnes i bawb.

## Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd

Eleni tro'r Eglwys yn Llanfihangel Genau'r-glyn oedd cynnal cyfarfod Dydd Gweddi fyd-eang y Chwiorydd ar nos Wener, Mawrth 7fed. Cymerwyd rhan gan y canlynol:

Yr Eglwys :
Glenys Evans (Arweinydd)
Mrs Buddug Thomas
Mrs Susan Jenkins
Mrs Elizabeth Collison
Mrs Hazel Pitt
Mrs Angela Wise
Mrs Helen Atkinson
Mrs Joy Evans
Mrs Avril Thomas
Mrs Doreen Haggar

Capel y Garn:
Mrs Shan Hayward
Mrs Beryl Hughes
Mrs Gwenda Edwards
Mrs Mary Thomas
Mrs Elen Evans
Mrs Liz Lloyd Jones

Capel Noddfa:
Mrs Mair Lewis
Mrs Beryl Bowen
Mrs Gwyneth Hunkin
Ms Anwen Pierce

Rhoddwyd anerchiad gyda neges bwrpasol gan Mrs Lona Jones, Penrhyn-coch, a bu Mr Bill Thomas yn garedig iawn i chwarae'r organ.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gareth a Sue Jones, Aberceiro ar ddod yn fam-gu a thad-cu am y tro cyntaf, a Helen yn fodryb. Ganwyd merch fach, Megan, i Ben a'i wraig.

## Pen blwydd Hapus

Dymunwn gyfarchion hwyr i Mari Davies, Dolawel, a oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 21 yn ystod mis Mawrth.

## Noson Goffi

Grŵp Crefft Genau'r-glyn: Noson Goffi a Stondinau, Nos Wener 18 Ebrill 7.00 o'r gloch ym Methlehem. Elw tuag at Capel Bethlehem a Henoed Bow Street a Llandre.

## Gwellhad

Gwellhad buan i Megan Davies, Tanyreithin, sydd wedi bod yn Ysbyty Bron-glais ar ôl torri ei braich.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Sarah Bourne a'r teulu, Clos y Ceiliog ar golli ei mam, sef Mrs Betty Doyle yn y Borth yn ddiweddar

Cydymdeimlwn hefyd â Henry James, Brynllys; Peter Watkin, Blaenwaun, a Mrs Buddug Thomas, Troed-y-bryn ar golli perthnasau yn ddiweddar.

## Merched y Wawr, Llanfihangel Genau'r-glyn

Meddygon Myddfai oedd testun ein gŵr gwadd fis Mawrth, ac felly be'n well na chael person o Fyddfai i sôn wrthym amdanynt. Er fod David James, yn byw yn Dolhuan yn Llandre bellach ers blynyddoedd ym Myddfai y cafodd ei eni a'r fagu a chawsom noson ddiddorol iawn ganddo wrth iddo sôn am y gwahanol glefydau a meddygyniaethau y meddygon enwog yma. Diolchodd ein Llywydd, Mrs. Glenys Evans, yn gynnes iawn i Mr. James am roi o'i amser i ddod atom.

Yn ystod y mis bu rhai o'r aelodau yn ymweld â Changen Penrhyn-coch i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cawsom wledd o fwyd a gwledd o adloniant wrth wrando ar blant Ysgol Gynradd Penrhyn-coch yn ein diddanu. Diolch yn fawr i Gangen Penrhyn-coch am y gwahoddiad.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Trefor Owen, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru.. Daw Trefor, 43 oed, o gefndir ffermio ar Ynys Môn, ac mae ganddo gysylltiadau teuluol yno o hyd. Mae'n briod â Jane ac maent yn byw yn Llandre, ger pencadlys Aberystwyth Comisiwn Coedwigaeth Cymru, gyda'u plant Gareth, 14, a Delyth, 13.

Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Syr Thomas Jones yn Amlwch, graddiodd Trefor mewn Coedwigaeth Amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor ym 1985, ac mae wedi dal nifer o swyddi rheoli ac arwain ym maes coedwigaeth yn yr Alban ac yn ne Cymru, y Canolbarth a gogledd Cymru ers ymuno â'r Comisiwn 22 o flynyddoedd yn ôl; bydd yn goruchwylio sefydliad â dros 350 o aelodau staff a chyllideb o dros £40 miliwn

Mae ei benodiad i un o'r swyddi uchaf fel gwas sifil yng Nghymru yn dilyn marwolaeth anamserol Ian Forshaw ym mis Medi 2007, ac ers hynny bu Trefor yn gweithredu fel Cyfarwyddwr interim.




Yn ogystal â helpu i gyflawni strategaeth Cynulliad Cymru ar gyfer coed a choetiroedd, Coetiroedd i Gymru, bydd rhaid i Trefor gydbwyso anghenion diwydiant gwerth £474m y flwyddyn a diwydiant sy'n cynnal 4,400 o swyddi amser llawn, gyda phryderon amgylcheddol a dyheadau cymdeithasol pobl ar gyfer eu coetiroedd.


"Mae'n destun balchder ac yn anrhydedd i gael fy mhenodi yn gyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru," dywedodd Trefor. "Byddaf yn arwain tîm gwych sy'n ymroddedig i sicrhau bod ein coed a'n coetiroedd yn aros yn gadarn a'u bod yn parhau'n gynyddol berthnasol i fywydau pobl Cymru.

"Mae hwn yn amser cyffrous i goedwigaeth yng Nghymru wrth i ni barhau i wneud ein cyfraniad at ymdrechion y Cynulliad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac i yrru'r adolygiad cyfredol o Goetiroedd i Gymru yn ei flaen ar ran y Cynulliad."

## Pasbort

Meleri Wyn (Y Berllan gynt) sy'n cael ei holi yng ngholofn fisol 'Pasbort' papur bro Caerdydd y Dinesydd y mis yma. Mae Meleri yn gydlynydd Is-deitlo gyda S4C.



# CAPEL BANGOR

## Mr John Lodwick Davies, Glasfryn, Pen-llwyn

Syfrdanwyd y gymdogaeth unwaith eto, pan ddaeth y newydd am farwolaeth annisgwyl Mr John Davies Glasfryn, ar ddydd Gwener 7ed o Fawrth. Gwyddom ei fod yn yr ysbyty, ond bu yn sal ond am ychydig amser.

Ganwyd ef yn Glanrhydtynoeth, Cwmrheidol, a symudodd yn fachgen ieuanc, ef a Dan ei frawd, i Rhiwarthen Uchaf Pen-llwyn, ac fel John Rhiwarthen yr adnabyddwyd ef o hynny ymlaen.

Collodd ei dad trwy ddamwain drychinebus, pan oedd ond tair ar ddeg mlwydd oed, a chafodd hyn gryn effaith arno.

Cafodd ei addysg yn y pedwar degau - yn ysgoldy'r capel y pryd hynny. Mae'r stori yn mynd, fod y plant yn cael eu dysgu i ddianc o dan y desgiau, pan glywsant sŵn arbennig awyrennau y gelyn. Ond roedd John a'i ffrindiau yn ddireidus, ac yn gweiddi " German Plane", ta pwy awyren fyddai uwchben, yn achosi'r plant i ddeifio o dan y desgiau, a gwneud llanast o wers yr athro!!

Priododd John â Doreen Baigent ym 1954, a chawsant eu bendithio gyda phump o blant, Lynne, Malcolm, John Alan, Meretta a Gillian. Dyn ei filltir sgwar oedd John, er iddo deithio yn gyson yn y dyddiau cynnar, yn cludo defaid, gwartheg a cheffylau yn ei lori o gwmpas Cymru a Lloegr. Ond nôl ym Mhen-llwyn gyda Doreen a'r plant 'roedd hapusaf. Cafodd ei fam gartref hefyd ganddynt yng Nglasfryn yn ei blynyddoedd olaf.

Diddordeb pennaf John oedd bridio cobiau Cymreig, ac roedd yn aelod o Gymdeithas Cobiau Cymru. Prynodd ei boni gyntaf cyn iddo briodi, ac felly y bu iddo ffurfio Styd Arthen. Cafodd bleser mawr i weld y ceffylau roedd ef wedi eu magu yn ennill mewn sioeau lleol ac yn wir hefyd mewn sioeau dramor.

Treuliau John yr haf mewn sioeau gwahanol, a mwynhau cwmni arddangoswyr eraill. Cafodd foddhâd mawr pan ddangosodd y plant yr un diddordeb, ac ymhyfrydai yn wir yn y blynyddoedd diwethaf, pan ddechreuodd ei wyrion arddangos ei geffylau yn ei le. Roedd yn falch iawn o'i deulu.

Bu John hefyd o dro i dro, yn beirniadu mewn sioeau, oherwydd roedd ganddo lygad am geffyl da, a gwyddai yn union beth 'roedd yn edrych amdano. Mae llwyddiant Arthen ei fferm geffylau yn dystiolaeth i'w dalent a'i waith caled ar hyd y blynyddoedd.

Mr John Davies oedd un o sylfaenwyr Sioe Capel Bangor a'r Cylch, sydd erbyn hyn yn Sioe dda flynyddol i'r Gymuned.

Roedd ganddo amser i blant, a byddai plant yr ysgol leol yn mwynhau ei holi am hyn a'r llall, pan gyrhaeddai John adre: gan fod iard yr ysgol yn ffinio â gardd Glasfryn.

Mae'n drist iawn na glywn lais clir a chyfeillgar John o uchelseinydd y sioe leol byth mwy. "Dewch bois bach, this is your last call" Coffa da amdano.

Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Pen-llwyn ar Ddydd Sadwrn 15ed o Fawrth, dan ofal y Parchg Ifan Mason Davies, a rhoddwyd y deyrnged gan ffrind, y Cynghorydd Fred Williams.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Doreen, y plant a'r wyrion, y brawd a'i deulu a'r cysylltiadau oll.

Gwir ben ym myd y goben, - amaethwr
Clên a'i waith diorffen,
Ffrind maith gyda'i afiaith wên
Hiraethwn John Rhiwarthen.
(gan ei wyres, Ffion Griffiths)


ETHOLIAD CYNGOR SIR
CEREDIGION WARD MELINDWR
DYDD IAU MAI 1AF 2008



FRED WILLIAMS
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
LLAIS CRYF A THEG DROS
BOB ETHOLWR


## Mrs Eirlys Griffiths, Penlan-Oleu, Penllwyn

Hunodd Mrs Eirlys Griffiths yn ei chartref ar Fawrth 20ed, yn golled enfawr i'w theulu, i Gapel Pen-llwyn ac yn wir y gymuned. Rhoddodd ei phresenoldeb a'i gwasanaeth i'r capel gydol ei hoes.

Ganwyd hi yn Nhynllidiart, Pen-llwyn, 80 o flynyddoedd yn ôl, yn pwyso ond deubwys. Cafodd ofal arbennig gan ei mam-gu a thad-cu y pryd hynny.

Gofaint oedd ei thad a'i thad-cu, ac roedd diwydrwydd cyson a phrysurdeb amrywiol ar yr aelwyd. Roedd y teulu yn amryddawn a diwylliedig ac yn ran fawr o'r gymuned leol.

Bu farw ei mam pan oedd Eirlys yn 7 mlwydd oed, a Gwyneth ei chwaer yn 9. Roedd yna alar a hiraeth mawr, ond daethant fel teulu i delerau â'r sefyllfa.

Cafodd Eirlys ei addysg yn Ysgol Pen-llwyn ac yna Ardwyn Aberystwyth. Roedd gwasanaethau y capel a'r Ysgol Sul yn bwysig iddi. Roedd ganddi feddwl miniog a threiddgar, a rhoddai ystyriaeth ddwys wrth drafod y gair. Bu yn athrawes Ysgol Sul i'r bobl ieuainc am flynyddoedd lawer, a rhoddodd bob cymorth iddynt gyda phroblemau dyrys.

Pan yn ieuanc ei hun, dioddefodd afiechyd blin, a bu yn gorwedd am fisoedd lawer mwen ysbyty yng Nghaerdydd. Bu yn amyneddgar a dewr iawn yn ystod ei salwch y pryd hynny.

Ar ôl ei chyfnod yn Ysgol Ardwyn ymunodd â chwmni Cyfrifydd ei modryb, a phasiodd arholiadau Cyfrifydd.

O dipyn i beth, symudodd i fyw i Lanbadarn, ond nid am hir iawn, oherwydd priododd ag Emlyn, ac ymunodd ag aelwyd groesawgar Penlan Oleu. Hawdd iawn oedd dod yn ôl i Ben-llwyn, a bendithiwyd hwynt â dau o blant - Rhodri a Rhian.

Amharwyd ar yr hapusrwydd hwn pan gollodd Emlyn ym 1993. Dangosodd ddewrder heb chwerwi dim.

Bu yn gofrestrydd a thrysorydd y capel am flynyddoedd maith, ac roedd ganddi ffordd arbennig o drîn y cyfrifon. Daeth nodweddion ei chymeriad i'r golwg wrth bwyso a mesur pob peth yn ofalus, a safai yn gadarn ar ôl gwneud penderfyniad. Medrai gydweithio ag eraill yn hapus iawn. Darllenai lawer iawn o lyfrau, a meddai ar gof da.'Roedd ganddi stôr o storïau am yr ardal, a wnâi lyfr da o'u cyhoeddi.

Gorfu iddi ddibynu ar eraill yn ddiweddar wrth i'r iechyd ddirywio, ond nid oedd byth yn cwyno. Hoffai gwmnïaeth, a byddai y ffôn yn reit brysur ar adegau, i dorri ar yr unigrwydd. Yn ei ffordd dawel, roedd ganddi gadernid bendant.

Roedd yn amlwg fod Eirlys yn barod erbyn hyn i adael y ddaear hon, a hithau yn gwybod fod hynny yn agos. Nid ofnai ddim, roedd yn barod i wynebu y ffaith, oherwydd roedd ganddi y ffydd a gwyddai fod ei Harglwydd gerllaw.

Hiraethwn am wraig deyrngar a chadarn, ac erys ei dylanwad am hir. Braint oedd cael ei adnabod, a boed i'r atgofion amdani sefyll yn fythol wyrdd.

Cynhaliwyd ei hangladd Ddydd Sadwrn Mawrth 29ain yng nghapel Pen-llwyn yng ngofal y Parchg Ifan Mason Davies, a ddarllenodd deyrnged haeddianol iddi yn ystod y gwasanaeth, wedi ei pharatoi gan Mr Martin Davies.

Cafodd deyrnged deilwng arall yn y gwasanaeth y Sul canlynol, gan Mrs Heulwen Lewis.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Rhodri, Gillian a Hannah fach, Rhian a Martin, Gwyneth ei chwaer, Beti a Cerugwen (ei chwiorydd yng nghyfraith) a'r cysylltiadau i gyd.

## Diolch

Dymuna Hywel ac Enid Jones, Awel- Deg, Capel Bangor, ddiolch i bawb a anfonodd anrhegion, blodau a chardiau, ac hefyd y galwadau ffôn a gawsant ar achlysur eu Priodas Aur. Llawer o ddiolch.

Dymuna Doreen Davies, Glasfryn, a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y llu o gardiau, blodau, rhoddion a'r cyfraniadau tuag at Ward Meurig Ysbyty Bron-glais. Mae dros fil o bunnoedd yn y gronfa erbyn hyn. Diolch yn fawr iawn i bawb.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Angharad Watkins ar dderbyn gradd Meistr mewn Athroniaeth M. Phil., o Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth. Mae Angharad yn wyres i Mr a Mrs Eilir a Linda Morris, Glennydd Capel Bangor. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu a ffrindiau oll.

## Canlyniadau Clwb 100 Neuadd Pen-llwyn Mawrth

£20.00 – 12 – Eirwen McNulty, Pengraig, Capel Bangor
£10.00 – 64 – Sefydliad y Merched (WI), Capel Bangor
£5.00 – 37 – Sian Laws, Maes y Meillion, Capel Bangor
£5.00 – 67- Iwan Morgan, Forge

# MADOG

Cottage, Capel Bangor

## Croeso

Croeso cynnes i'r ardal i deulu newydd , Maes y glyn, ger fferm Cyncoed. Gobeithio y byddwch chwi Meirion a Liz Williams yn hapus yn ein plith, heb anghofio y plant Caryl, Carwyn a Marged.

## Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Un noson ym mis Mawrth aeth rhai o'r aelodau i ymuno â changen Tal-y-bont pryd cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Catrin Dafydd. Cafwyd croeso mawr yno ac roedd gwledd o fwyd wedi ei baratoi ar eu cyfer.

Yn ein cyfarfod ar nos Fawrth, 1af Ebrill, croesawyd Dr. Rhiannon Ifans o Benrhyn-coch atom gan ein llywydd, Liz Collison. Bu'n sôn wrthym am ei gwaith pan yn gweithio i'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth. Clywsom ganddi fel y derbyniodd wahodddiad oddi wrth Robat Gruffydd o Wasg y Lolfa i ysgrifennu llyfr am Owain Glyndwr ac fel roedd cysylltiad rhwng hyn a'i gwaith dyddiol ar y pryd. Darluniwyd y llyfr gan Margaret Jones a arferai fyw yng Nghapel Bangor a diddorol oedd clywed am y trafod a ddigwyddai rhwng yr awdur a'r arlunydd gan na fyddai cytundeb rhwng y ddwy ambell waith. Diddorol hefyd oedd clywed am y rheswm pam y cyhoeddwyd y llyfr yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yna rhoddodd yr un sylw i'w llyfr am Dewi Sant gan roi ambell stori i ni ynglŷn â'i ysgrifennu. Rwy'n siŵr y bydd sawl un o'r aelodau nawr yn darllen neu'n ail ddarllen y llyfrau ac yn edrych yn fanwl ar y lluniau. Wrth wneud hynny byddwn yn dwyn i gof y sylwadau a glywsom gan Rhiannon Ifans.

Diolchwyd i Rhiannon am noson ddiddorol gan Delyth Davies. Beti Daniel a Gwen Morgan oedd yng ngofal y te. Yn ddiweddar derbyniodd y gangen rodd er cof am Gwen Jones, un o'n haelodau a fu farw'n ddiweddar. Prynwyd mygiau at ddefnydd y gangen ac fe'u defnyddiwyd am y tro cyntaf yn ystod y cyfarfod. Eirwen McAnulty a enillodd y raffl.

**Madog**
**Oedfaon Mai**
**2.00**
4 Bugail
11 Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion
18 Bugail
25 Richard Llwyd Jones

## Cymdeithas Madog

Cynhaliwyd dau gyfarfod llwyddiannus yn ddiweddar, y naill ar 21 Chwefror a'r llall ar 13 Mawrth. Dr Gwyn Penrhyn Jones, Tal-y-bont, oedd ein gwestai ym mis Chwefror, ac fe gyflwynodd hanes ei fywyd mewn ffordd gynnes a diffuant. Soniodd am ei fagwraeth ym Methesda ac am siop lyfrau'r teulu, yna am ei hyfforddiant fel meddyg yn Lerpwl a'i waith arloesol yn Ysbyty Alder Hey. Clywsom hefyd am y cyfnodau a dreuliodd mewn gwledydd tramor — y tro cyntaf pan wahoddwyd ef i gynllunio gwasanaeth iechyd yn Kuwait, ac yn nes ymlaen, ar ôl cyfnod 'wrth y ddesg' yn gweinyddu yng Nghaerdydd, pan ailgydiodd yn y gwaith ymarferol o iacháu drwy wasanaethu cymunedau pysgota yn Newfoundland.

Dr Owen Gruffudd Roberts o Adran Hanes a Hanes Cymru Prifysgol Aberystwyth oedd ein gwestai ym mis Mawrth, ac roedd ei sgwrs yntau'n cyffwrdd â phwnc iechyd. Cyflwynodd ran o ffrwyth prosiect ymchwil ar hanes trefi glan-môr, gan ddilyn twf Aberystwyth fel tref wyliau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Diddorol iawn oedd gweld rhai o'r hen luniau, a deall mwy am sut yr oedd pobl y cyfnod hwnnw'n ymagweddu at iechyd a hamdden.

Llywyddwyd y ddau gyfarfod hyn gan Mr Alwyn Hughes, Gellinebwen, a braf oedd cael cwmni'r Bugail, y Parchedig Wyn Rhys Morris. Miss Alwen Griffiths, Lluest Fach, a Mrs Hughes, Gellinebwen a oedd yn gyfrifol am weini panaid a theisen ar ddiwedd y ddwy noson. Daeth tymor y Gymdeithas i ben am eleni. Cafwyd arlwy amrywiol drwy fisoedd y gaeaf, ac fe fydd ein gweithgareddau'n ailgychwyn ddiwedd Medi pan fydd croeso cynnes i bawb.

## Cerddorol

Llongyfarchiadau i Lisa Evans, Fronfraith, ar basio arholiad piano gradd 1.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i'r Athro Patrick Simms-Williams, Gwarcwm ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Caergrawnt;

hefyd i Mrs Tony Jones, Clydfan, Capel Dewi sydd yn awr yn Ysbyty Machynlleth ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn eto y mis hwn â theulu bach arall yn eu colled. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â chi Mr Dafydd Jones, Hen Ystordy, Capel Bangor, ar golli Gillian, a hithau ond 46 mlwydd oed. 'Rydych yn ein gweddïau, yn enwedig y bechgyn Huw a Rhodri. "Cledd â mîn yw colli mam."

Bu yr angladd dydd Llun yr unfed ar ddeg ar hugain o Fawrth yn Amlosgfa Aberystwyth, pan roedd llawer o'u ffrindiau yn bresennol yn gefnogaeth iddynt.

Er fod Mrs Gillian Jones wedi bod yn sâl, annisgwyl oedd ei marwolaeth.

Bendith Duw fo arnoch, yn eich hiraeth.

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

Holwch Paul am bris ar
paul@ylolfa.com
y Lolfa
Argraffwyr
TALYBONT CEREDIGION SY24 5ER
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

urdd.org

# Rhanbarth Ceredigion

**Swyddog Datblygu - Anwen Eleri**
**anweneleri@urdd.org neu 01239 652150**

**Euro Disney – Taith yr Uwchradd i Baris**

Roedd Paris yn ffantastig. Es i ar lawer o reids grêt fel "Space Mountain," "Mountain Mission 2," "Tower of Terror" a "Rock and Roller Coaster." Wnes i lawer o ffrindiau o ysgolion eraill. Cysgon ni yn y gwesty "Sundance" sydd yn bentref Chayenne. Y thema oedd Wild West.

Y noson gyntaf aethon ni i Sioe Buffalo Bills ac roedd ein tîm ni wedi ennill y rodeo. Roedd hi'n lot o hwyl gwylio'r ceffylau a Buffalo Bill ei hunan.

Yr ail ddiwrnod aethon ni i'r Parc Disney ac aethon ni ar bron bob un reid. "Phantom Manor" oedd fy hoff un i. Y noson honno aethon ni ar gwch i lawr yr afon Seine. Gwelais i'r twr Eiffl. Y trydydd diwrnod aethon ni i'r stiwdio ac aethon ni ar Rock and Roller coaster a Tower of Terror. Y noson honno aethon ni siopa ym mhentre' Disney.

Diolch i bawb a aeth ar y trip!!

Shaun Gopalan –
Ysgol Pen-glais

**Eisteddfodau**

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth Ceredigion. Pob lwc i bawb a fydd yn cystadlu yng Nghonwy. Diolch i bawb a fu'n cystadlu ym mhob maes hefyd.

Efallai i chi glywed bod Connie Fisher yn beirniadu unawdau Sioe Gerdd Uwchradd ac Aelwydydd. Roedd y disgyblion a gwrddodd â hi yn falch o gael y cyfleu.

**Celf a Chrefft**

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft y Sir. Fe fydd y buddugwyr yn mynd i Gonwy ac fe fydd cyfle i chi weld yr holl gampweithiau buddugol i lawr yn y Ganolfan Treftadaeth ym mis Mai yn Llangrannog. Cadwch lygaid am y manylion.

**Pêl-rwyd Cynradd Sir Ceredigion**

Llongyfarchiadau i dîm Pêl Rwyd Ysgol Gynradd Llanilar am ennill yn y gystadleuaeth rhanbarth. Fe fyddant nawr yn cynrychioli Ceredigion ym mis Mai. Pob lwc iddyn nhw.

DIOLCH yw'r un gair bach sydd ar ôl. Heb os nac oni bai, mae Ceredigion yn ffodus iawn o gael Anwen Eleri yn llywio'r llong. Diolch o galon iddi am ymrwymo i roi cyfleoedd i ieuenctid y sir.


inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion.

13 Stryd Y Bont, Aberystwyth
01970 626200

Blodau i bob achlysur
Blodau'r Bedol
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur

Donald Morgan
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

GWESTY CYMRU
BWYTY Â LLOFFTYDD
★★★★★

Mae Gwesty Cymru yn edrych am unigolion brwdfrydig a thalentog i ymuno â'r tîm llwyddiannus yn y bwyty ger y lli yn Aberystwyth.

STAFF GWEINI (Llawn Amser)
- Profiad blaenorol yn fanteisiol.
- Gallu sylfaenol i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.

Ceisiadau drwy c.v yn unig at:
Gwesty Cymru
19, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth.
SY23 2AZ

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas

Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: R. C. Jenkins
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312


## TREFEURIG - GWEFAN GYMUNEDOL

Lawnsiad Swyddogol yng nghwmni
Elin Jones AC
(Y Gweinidog dros Faterion Gwledig)

**15 Mai 08**
Ysgol Gymunedol Penrhyn-coch am 7:30pm

Adloniant a lluniaeth - croeso cynnes i bawb
rsvp: Vera Bowen erbyn 5/5/08
Verab@bowen1510.freeserve.co.uk / 820344

## CYLCH MEITHRIN TREFEURIG

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Nos Fawrth, 22 Ebrill 2008
7.30 yr hwyr

Neuadd y Penrhyn

# 'O'R CYNULLIAD' - ELIN JONES AC



Datgelodd y Post Brenhinol yn ddiweddar eu bod yn bwriadu newid presenoldeb gwasanaeth y Swyddfa Bost yn nifer o'n cymunedau gwledig yng Ngheredigion o fis Gorffennaf ymlaen. O dan y cynlluniau, bydd nifer o bentrefi yn colli eu Swyddfeydd Post parhaol yn llwyr gyda gwasanaethau fan symudol yn cael eu cyflwyno yn eu lle mewn rhai achosion. Mae gwasanaeth y Swyddfa Bost yn rhan hanfodol o'n cymunedau gwledig ac rwy'n siomedig tu hwnt gyda'r cynlluniau i gau cymaint o'n swyddfeydd parhaol yng Ngheredigion. Mewn nifer o bentrefi, mae'r Swyddfa Bost yn rhan o'r siop leol ac fe allai colli'r gwasanaeth post arwain at y siop yn gorfod cau. Dros yr wythnosau nesaf byddaf yn mynychu nifer o gyfarfodydd cyhoeddus ar hyd a lled y sir i frwydro dros ein Swyddfeydd Post.

Daeth newyddion da i dde Ceredigion yn yr wythnosau diwethaf wrth i'r Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC, gadarnhau mewn llythyr imi ei fod yn barod i ystyried cefnogi ailagor Cyffordd Tesco yn Aberteifi ar ffurf cylchfan. Daw'r penderfyniad yn dilyn y cyfarfod a drefnais yn Nhachwedd 2007 rhwng y Gweinidog a chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberteifi. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd yn rhaid aros ychydig amser cyn bydd ailagor y Gyffordd yn troi'n realiti.

Un datblygiad ar ein priffyrdd sydd ar fin dod yn realiti yw ffordd osgoi Llandysul. Mae'r cynlluniau yma wedi bod ar y gweill ers nifer o flynyddoedd ac fe gadarnhaodd Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar bod y cais ar gyfer ariannu'r datblygiad wedi bod yn llwyddiannus. Bydd y gwaith adeiladu'n dechrau'n fuan iawn ac rwy'n gobeithio y bydd y cynlluniau yn hwyluso'r daith o Geredigion i'r M4.

Yn olaf, fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig fe gyhoeddais fod mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru i dderbyn grant gwerth £50,000 i'w cynorthwyo gyda'i waith ar draws Cymru. Rwy'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd y mudiad yma yng Ngheredigion er mwyn cynnig ystod eang o gyfleon i'n pobl Ifanc ac rwy'n gobeithio y bydd y cyllid yn galluogi'r Ffermwyr Ifanc i ddatblygu ymhellach.

# Y Briodas Gymreig

Y Briodas Gymreig (Aran 514)
gyda Huw Williams (organ) a Carys Owen (telyn) Organydd Cadeirlan Sant Paul a Thelynores Gwerin yn rhyddhau CD i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi

Ddydd Gŵyl Ddewi rhyddhawyd CD o gerddoriaeth Gymreig ar gyfer seremonïau priodasol gan Organydd Cadeirlan Sant Paul, Huw Williams a'r delynores gwerin, Carys Owen. Gyda'r twf mewn gwasanaethau sifil, a'r dymuniad i bersonoleiddio'r gwasanaethau mae cryno ddisgiau priodasol wedi dod yn hynod boblogaidd.

"Hwn yw'r CD cyntaf o'i fath i gynnig y cyfle i'r priodfab a'r briodferch fynegi eu hunaniaeth Gymreig" meddai Emyr Rhys o Recordiau Aran. "Mae'r darnau arni yn cynnwys alawon gwerin serch i'r delyn mewn trefniadau gan Nansi Richards - Telynores Maldwyn a John Thomas - Pencerdd Gwalia a chyfansoddiadau gwreiddiol i'r organ gan Karl Jenkins a William Mathias."

Ganwyd Huw Williams ym 1971 yn Abertawe, a derbyniodd ei addysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Bu'n Ysgolor Organ yng Ngholeg Crist, Caergrawnt cyn astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol ac yn yr Iseldiroedd. Fe ddaeth yn Ddirprwy Organydd yng Nghadeirlan Henffordd lle chwaraeodd ran blaenllaw yn Ngŵyl enwog y Tri Côr. Ers iddo dderbyn ei swydd bresennol ym 1998, mae'n byw yn Llundain efo'i deulu ifanc, ond mae wedi teithio i UDA, Canada a thrwy Ewrop i gynnal datganiadau. Mae hefyd wedi perfformio efo nifer o sefydliadau mwyaf disglair y ddinas, sef y 'London Symphony Orchestra', 'London Philharmonic Orchestra', 'City of London Sinfonia', 'London Mozart Players', yr 'Orchestra of the Age of Enlightenment' a 'The Sixteen'.

"Mae gweithio yn y byd cerddorol yng Nghymru yn ddeniadol i rywun fel fi, sy'n llysgennad i'r Cymry yn Llundain!" meddai Huw. "Rwy'n gobeithio bydd y prosiect yn creu mwy o ddiddordeb mewn cerddoriaeth glasurol Cymreig."

Daw tri darn i'r organ o waith y diweddar William Mathias. fu'n Bennaeth ar yr Adran Gerdd ym Mhrifysgol Cymru, Bangor a'i weithiau eglwysig yn ennyn clod mawr, gan gynnwys darn comisiwn ar gyfer priodas y Tywysog Charles â Diana Spencer. Bu priodas Huw â'i wraig Angela yn cynnwys cerddoriaeth gan Mathias, felly a oes yna le tu mewn i seremoni briodasol i fynegi hunaniaeth wladgarol?

"Oes – mae'r gwasanaeth priodasol yn dathlu undod dau berson, felly dylai rhan o'r seremoni fynegi personoliaeth neu gefndir y cwpwl. Gall cerddoriaeth adlewyrchu ein cefndir cenedlaethol, ond mae darnau o'r radd flaenaf, fel sydd yma, yn goresgyn unrhyw ffiniau diwylliannol."

Mae Huw yn mynd i weithio fel organydd yn Eglwys Bryn Mawr yn Philadelphia

Daw Carys Owen (Roberts gynt) o Bow Street; astudiodd Gerddoriaeth ym Mhrifysgol Manceinion.ac yn dilyn ei gradd fe barhaodd efo'i hastudiaethau ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, ble yr enillodd ei M.A. ar y testun 'Cerddoriaeth draddodiadol Gymreig'. Ers hynny mae wedi canu'r delyn yn broffesiynol, wedi gweithio i Gyngor y Celfyddydau ac erbyn hyn yn gynhyrchydd teledu ar y rhaglen 'Y Sioe Gelf'. Trwy hyn oll bu'n brysur yn recordio a pherfformio fel aelod o'r grŵp gwerin Cymreig - 'Ogam'.

"Mae gan y delyn gysylltiad cryf efo'r diwylliant Cymreig ac mae gennym draddodiad cyfoethog o gerddoriaeth ar gyfer yr offeryn" meddai."Mae pobl wedi dechrau benthyg alawon o'r traddodiad cerdd dant i'w defnyddio fel darnau gorymdeithiol mewn gwasanaethau




priodasol. Mae'r 'ceinciau' yn addas iawn gan eu bod yn urddasol, yn osgeiddig ac yn unigryw Gymreig."

Ar y CD mae Carys yn cyflwyno trefniadau o ganeuon traddodiadol. Pam ddaru hi ddethol y caneuon arbennig yma? "Mae un testun yn uno nhw i gyd – sef serch, mae rhai fel 'Ar lan y môr' yn adnabyddus iawn fel caneuon serch."

Tra'n recordio'r roedd Carys yn disgwyl ei baban cyntaf ac erbyn hyn mae hi a'i gŵr Siôn wedi dathlu genedigaeth eu merch fach – Luned Swyn.

Sut felly y mae Carys yn rhagweld bydd cyplau yn defnyddio'r CD yma? "Pan fo pobl yn gofyn i mi ware yn eu priodasau, maen nhw'n ymwybodol bod eisiau telynor a bod eisiau cerddoriaeth Gymreig. Bydd hwn yn help iddynt ddewis pa ddarnau maent eisiau. Hefyd, efo nifer o bobl yn dewis priodi mewn mannau anarferol, efallai tramor, daw'r gerddoriaeth yma â naws Gymreig i'r achlysur, lle bynnag y bo!"

Mae'r 'Briodas Gymreig' ar gael o Siopau Cymreig neu
dros y we - www.traciaucymraeg.com

# COLOFN MRS JONES

Mi fum yn myfyrio cryn dipyn y mis hwn ar ragdybiaethau. Rhagdybiaeth, fel y gwyddoch, ydi'r gair crand am neidio i gasgliadau a meddwl ein bod yn gwybod y gwir. Yn aml maent yn iawn, dro arall maent yn gwbl gamarweiniol ac annheg. A phaham y cychwynnais ar y trywydd hwn? Oherwydd diflaniad Shannon Matthews. Da yw medru adrodd iddi gael ei darganfod yn holliach ond nid cystal yw gorfod nodi pa mor annheg oedd y wasg a'r teulu. Dyma deulu tlawd, teulu lle roedd yna sawl torpriodas a thorperthynas wedi digwydd, lle roedd y fam yn fam i blant sawl tad. Ac, yn fy myw, ni fedrwn beidio a chymharu y driniaeth a gafodd y teulu hwn gan y wasg a'r driniaeth a gafodd teulu'r Mc Cann gyda'u priodas sefydlog a'u gwyliau moethus. O'r cychwyn cyntaf, ni chafodd Shannon gefnogaeth mor bositif gan na'r wasg na'r cyhoedd ac ni welwyd yr un sylw yn cael ei roi i'r chwilio amdani ag a gafodd y chwilio am Madeleine. Yr oedd y wasg yn barod iawn i ddweud y cwbl wrthym am statws priodasol ei mam - ac eto, nid oedd a wnelo pwy oedd tad pa blant o'i heiddo ddim a'r ffaith sylfaenol, sef fod merch fach ar goll.

Roeddem wedi ein cyflyru gan y cyfryngau i ddisgwyl y byddai'r teulu yn profi yn ddiffygiol. Ac felly bu, wrth gwrs, yn ôl pob golwg, er na fedrir trafod union fanylion yr achos ar hyn o bryd. Ond a oedd a wnelo tlodi'r teulu a moesau - os moesau hefyd - ei mam o reidrwydd unrhyw beth a'r amgylchiadau? Oedd, yn ôl ein rhagdybiaethau ni ond a ellir cyfuno tlodi a moesoldeb? Ai dim ond pobl dda eu byd sy'n foesol? Ynteu a ydym yn gymaint caethweision i'r oes faterol hon fel ein bod yn credu fod pawb da eu byd yn saint a bod tlodi bydol yn arwain at anfoesoldeb a thlodi ysbrydol yn ogystal?

Fe roedd credu fel hyn yn gyffredin iawn yn ystod oes Fictoria ac nid wyf yn meddwl ein bod wedi newid rhyw lawer. Ond mae'n orsymleiddio dybryd ac yn orsymleiddio sy'n medru arwain at anhegwch o bob math. Cymerwch deulu Shannon. Os daw'r achos i lys, nid oes ganddynt fawr o obaith cael prawf cyfiawn hyd yn oed os ydynt yn ddieuog oherwydd mae pob ynad posibl wedi cael ei gyflyru i feddwl eu bod yn euog gan y cyfryngau. Maent yn euog hyd oni brofir yn wahanol ac y mae hynny yn groes i gynsail mwyaf sylfaenol cyfraith Loegr. Mae'n orsymleiddio sydd yn ei gwneud hi'n anodd i'r tlawd a'r difreintiedig brofi eu diniweidrwydd ac mae'n orsymleiddio sydd yn arwain at ffafrio'r cyfoethog.

Wedi'r cyfan, mi roedd Naomi Campbell yn y cyfryngau yr wythnos hon, hefyd. Unwaith yn rhagor, y mae wedi colli ei thymer ac ymosod yn eiriol o leiaf ar rywun. A diddorol oedd sylwi sut yr oedd yr adroddiadau amdani yn llawn cyfeiriadau at yr hyn ddigwyddodd fel 'an alleged incident' ac yn y blaen.....Mae'r ddau achos yn nodedig o debyg. Ond gan fod Naomi Campbell yn medru erlyn papurau newydd a chan ei bod yn gyfoethog, mae hi'n cael ei thrin yn dipyn mwy tyner gan y wasg na theulu Shannon.

I mi, mae'r ddau achos yn nodedig o debyg nid yn unig oherwydd y tebygolrwydd o euogrwydd a chyfrifoldeb am yr hyn a ddigwyddodd ond am eu bod yn ddarlun mor driw o dlodi moesol ac eneidiol ein hoes seciwlar ni. Waeth inni gydnabod hynny ddim oherwydd adnabod y bai yw hanner ei gywiro. Ac ar ôl ei gydnabod, gadewch inni gydweithio i adfer safonau byw a safonau moesol fel ei gilydd, i gosbi yn ôl euogrwydd ac nid statws ac i berswadio ein papurau newydd i lynu at ffeithiau sy'n berthnasol i'w storïau yn unig gan anwybyddu moesau ac ethos y sawl sydd ynddynt.

Dyna'r unig ffordd i greu cymdeithas nad yw'n dibynnu ar ragdybiaethau oherwydd, yn y bon, gwenwyn rhagdybiaeth yw ei bodolaeth nid ei gwirionedd!

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Y Parchg Roger Thomas

Cyn gwyliau'r Pasg cafwyd ymweliad gan y Parchg Roger Thomas. Bu'n adrodd stori'r Pasg i'r disgyblion gan ddefnyddio nifer o adnoddau gweledol. Gwelwyd y disgyblion yn mwynhau'r stori ac yn gwrando'n astud iawn. Diolch iddo am ei barodrwydd i ddod atom yn rheolaidd.

## Theatr y Werin

Fel rhan o'r ŵyl "Agor Drysau," cafwyd cyfleoedd i fynychu perfformiadau amrywiol yn Theatr y Werin gan grwpiau o rannau gwahanol o'r byd.

Bu disgyblion hŷn yr ysgol yn y Theatr yn gwylio perfformiad arbennig gan gwmni Echoa o Ffrainc. Perfformiad drwy gyfrwng dawns a gafwyd gyda phedwar o berfformwyr. Gwelwyd dawnsio arbennig ynghyd â'r defnydd o rannau o'u cyrff i greu miwsig a synnau amrywiol.

Aeth disgyblion blynyddoedd 3 a 4 i wylio perfformiad gan gwmni Theatr Gwent. Teitl y perfformiad oedd "Moondragon." Roedd y perfformiad yn seiliedig ar y llyfr o'r un enw. Cafwyd llawer o hwyl yn gwylio'r perfformiad.

Aeth disgyblion y dosbarth derbyn a blynyddoedd 1 a 2 i wylio "Naid yr Angel." Roedd y perfformiad yn digwydd ar drampolinau. Diolch am y cyfleoedd i fynd i weld y dramâu.

## Twrnament Pêl-droed

Bu tîm pêl-droed yr ysgol yn cystadlu yn nhwrnament ysgolion yr ardal yn ddiweddar. Cynhaliwyd y gêmau ar gaeau Blaendolau. Chwaraewyd nifer o gêmau yn ystod y prynhawn. Cafwyd llawer iawn o hwyl wrth chwarae a llwyddwyd i ennill rai gêmau.

## Celf a Chrefft yr Urdd

Diolch i Miss Davies am ei holl oriau gyda'r disgyblion ac i rieni, perthnasau a ffrindiau yr ysgol am eu cymorth gyda'r gwaith.

Ddydd Iau 1 Mai, gallwch chi newid y ffordd mae'r cyngor yn rheoli ein sir...

Plaid
PLAID CYMRU

Etholwch:
- **Penri James** *ar gyfer Tirymynach*
- **Rhodri Davies** *ym Melindwr*
- **Dai Suter** *yn Nhrefeurig*

Mae'n bryd i ni symud Ceredigion ymlaen

# YSGOL CRAIG-YR-WYLFA

## Ffair Pasg

Cynhaliwyd Ffair Pasg lewyrchus yn yr ysgol ar Ddydd Sadwrn y 15fed o Ebrill. Daeth tyrfa gref i neuadd yr ysgol lle cafwyd nifer o weithgareddau a stondinau. Bu'r plant hefyd yn cystadlu mewn cystadleuaeth het Pasg ac ar ddiwedd y bore, llwyddwyd i godi dros £340.

## Ymweliad i'r Fferm a'r Eglwys

Bore dydd Mercher y 5ed o Fawrth aeth plant dosbarth 1 ar wibdaith i fferm Cwmwythig, Capel Bangor ac yna i'r Eglwys yma yn y Borth. Bu'r plant yn bwydo'r lloi bach a'r ŵyn swci, yn gwylio'r da yn cael eu godro ac yn cael tro yn y tractor. Cafwyd pop a bisgedi cyn gadael, trwy garedigrwydd Mr a Mrs Evans. Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad a diolchwn i deulu Cwmwythig am y croeso.

Aeth y bws o'r fferm draw i Eglwys Sant Mathew yn y Borth. Bu'r plant yn edrych ar wahanol rannau o'r Eglwys ac yn dysgu am y Beibl.

## Diwrnod y Llyfr

Daeth y plant i'r ysgol mewn gwisg ffansi dydd Iau y 6ed o Fawrth fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr. Y thema oedd cymeriad allan o lyfr a'r enillwyr oedd Anna Williams, Lily Pryce, Tuen Cullen a Hattie York.

## Dathlu Masnach Deg

Daeth criw 'Ffeil' i'r ysgol dydd Iau y 6ed o Fawrth. Buont yn ffilmio'r plant yn bwyta cinio Masnach Deg ac yn cyfweld â phlant blwyddyn 6 a fu'n sôn am yr hyn mae'r ysgol yn ei 'wneud i hybu Masnach Deg. Mae'r ysgol yn gweithio tuag at ennill statws ysgol Masnach deg yn ystod Tymor yr Haf.

## Taith i Awstria

Bu Mr Jones a Mrs Richards yn ymweld ag ysgolion yn Wolfsburg ger dinas Graz yn ne-ddwyrain Awstria ar ddechrau mis Mawrth. Roedd y trip yn rhan o'r prosiect Gwreiddiau ac Adenydd. Buont yn ymweld ag ysgol gynradd ac ysgol uwchradd mewn pentref gwledig ac yn trafod y rhan nesaf o'r prosiect rhwng yr ysgolion o Awstria, yr Eidal, Iwerddon a Chymru.



Finlay yn bwydo'r oen swci yng Ngwmwythig



Enillwyr gwisg ffansi Diwrnod y Llyfr



Cath Aran yn rhoi stori i'r dosbarth derbyn

## Gŵyl Agor Drysau

Fel rhan o Gŵyl Agor Drysau Arad Goch bu plant C.A. 2 yn gwylio perfformiad o ddawnsio a gymnasteg gan grŵp Echoa yn Theatr y Werin. Cafodd plant dosbarth 1 y pleser o wrando ar Cath Aran yn darllen storïau ac yn sôn am chwedlau yn yr ysgol.

## Mr Roger Thomas

Braf oedd cael croesawu y Parchg Roger Thomas atom cyn gwyliau'r Pasg. Bu'n sôn am hanes Iesu yn cael ei groeshoelio ac yna'n atgyfodi ac am bwysigrwydd y Pasg i ni yn 2008. Diolch i Mr Thomas am roi o'i amser prin i ddod atom.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

Mynach Handyman
(D.M.Williams)
Torri Porfa a Gwasanaeth Garddio, Peintio, Teilio, DIY a manion waith eraill o amgylch y tŷ
Disgownt i bensiynwyr
Ffoniwch ni yn gytaf ar
01970 881090 / 07792457816

# YSGOL RHYDYPENNAU



Llun y plant yn mwynhau wythnos gwyddoniaeth yn IGER



Tîm Pêl-rwyd yr Ysgol - Pencampwyr Cylch Aberystwyth

## Wythnos Gwyddoniaeth

Ar yr 11eg o Fawrth aeth blwyddyn 5 a 6 i IGERr ger Penrhyn-coch er mwyn dathlu 'Wythnos Gwyddoniaeth'. Profwyd nifer o weithgareddau diddorol iawn gan y plant yn ystod y bore a hwyluswyd y dysgu gan fod y tasgau yn ymarferol ac yn weladwy iawn.

## Chwaraeon

Ar y 14eg o Fawrth bu tîm pêl-droed a thîm pêl-rwyd yr ysgol yn brwydro yng ngystadlaethau cylch ysgolion Aberystwyth; y naill ar gaeau Blaendolau ar llall yng Nghanolfan Hamdden Plas-crug. Llwyddodd y bechgyn i gyrraedd y rownd gyn-derfynol – ymdrech dda; ond llwyddodd y merched i guro pawb, ac yn hyn o beth, ennill y darian a'r gystadleuaeth. Campus!

Cafwyd llwyddiant pellach ar y 18fed o Fawrth wrth i dîm rygbi'r ysgol frwydro ym mhencampwriaeth rygbi'r Urdd i holl ysgolion Ceredigion. Llwyddodd y bechgyn i guro Ysgol Brynsaron 20-5; Castellnewydd Emlyn 15-0; Llambed 20-5; Llandysul 15-5 ac Ysgol Plas-crug 20-5. O ganlyniad i hyn, mi fydd y bechgyn yn un o ddau dîm fydd yn cynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth cenedlaethol Yr Urdd ar faes Y Strade, Llanelli ar ddydd Sadwrn y 3ydd o Fai; pob hwyl iddynt!

## Cyngerdd

Er mwyn codi arian ar gyfer Eisteddfod 2010 cynhaliwyd cyngerdd yn neuadd y pentref ar nos Fercher y 19eg o Fawrth. Cafwyd perfformiadau graenus gan blant ysgolion Pen-glais a Phenweddig a bu Rhydypennau yn perfformio'r eitemau a lwyddodd i ennill yn Eisteddfod Gylch Yr Urdd eleni. Cafwyd noson lwyddiannus iawn.

## Ysgol Iach

Mae'r ysgol yn aelod o gynllun Ysgolion Iach Ceredigion ac yr ydym newydd ennill statws Cyfnod Tri-un or ysgolion cyntaf yng Ngheredigion i wireddu hyn.

Rydym hefyd yn 'Ysgol Eco'; mae'r llwyddiant diweddar yma yn cydnabod gwaith di-flino'r staff a'r plant i ailgylchu, i bwysleisio agweddau gwyrdd ac i ofalu am yr amgylchedd. Mi fydd baner 'Ysgol Eco' yn ymddangos ar dir yr ysgol i gadarnhau yr orchest hon.

Mae Masnach Deg yn agwedd bwysig iawn ym mywyd cyffredinol yr ysgol; heblaw am siop wythnosol sy'n gwerthu cynnyrch Masnach Deg, 'rydym hefyd yn trefnu gwasanaethau, gwersi a chyflwyniadau cyffredinol i bwysleisio ac i godi ymwybyddiaeth a phwysigrwydd yr elfen hon i bawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol.




Plant blwyddyn 6 yn prynu nwyddau masnach deg yn ein siop wythnosol

# Ceir yn rhedeg ar borfa – wel be nesa?



Mae'r rhygwellt parhaol gwylaidd am achub cam perchnogion cerbydau 4x4 ym maestrefi Llundain wrth i'r rheiny godi dau fys i daliadau tagfeydd traffig Ken Livingstone yr holl ffordd i'r banc os gwna ymchwil presennol yn Aberystwyth gyflawni ei botensial yn llawn.

Fe all yr olygfa uchod ddigwydd ynghynt na'r disgwyl o ganlyniad i ymchwil ar gynhyrchu bio-ethanol o borfa yn Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER), Aberystwyth.

"Gallai'r arbrofi presennol gydag ethanol seliwlosig yn IGER helpu i'n diddyfnu oddi ar ein dibyniaeth ar danwydd petrocemegol yn ystod y deng mlynedd nesaf", yn ôl Dr. Steven Fish a ychwanegodd y gellid "rhedeg un o fysus Llundain am flwyddyn gron ar ethanol o borfa wedi ei dyfu ar 11.2 hectar o dir".

Mae'r targedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau gollyngiadau CO2 yn awgrymu taw cnydau bioegni yw'r unig ddewis realistig ac mewn ardaloedd helaeth o'r DU gallai hynny olygu canolbwyntio ar ardaloedd tir glas.

"Canolbwyntiodd cyfran dda o'r ymchwil cyn hyn ym maes ethanol seliwlosig ar eplesu startsh o india-corn ond rydym ni yn teimlo fod rhygwellt yn well opsiwn yn y DU, oherwydd gellir ei dyfu ar diroedd sy'n anaddas ar gyfer tyfu cnydau eraill, ac o'r herwydd nid yw'n clymu i fyny tiroedd sy'n angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu bwyd neu borthiant anifeiliaid", meddai.

Mae systemau tir glas ar hyn o bryd yn gyfrifol am ddwy ran o dair o diroedd y DU, ac yn wahanol i gnydau eraill sy'n cael eu neilltuo yn benodol ar gyfer cynhyrchu ynni megis helyg a Miscanthus, nid yw rhygwellt parhaol yn cael ei gyfyngu gan dywydd oer y gaeaf, dibyniaeth ar ddŵr, mathau o bridd nac ystyriaethau cymdeithasol.

Mae rhygwellt parhaol yn medru manteisio ar dymor tyfu hir, ac nid yw'n dibynnu ar lefelau uchel o nitrogen, yn enwedig pan gaiff ei dyfu yn gymysg â meillion, a chan ei fod yn tyfu'n naturiol yn y wlad hon gall dyfu ar dir ymylol hyd yn oed pan fo'r tymheredd yn isel. Mae yna botensial i gwtogi ar erydu o'r pridd, ac i warchod cymunedau gwledig trwy ganiatáu arallgyfeirio i ffwrdd o'r systemau godro a da byw traddodiadol.

Pan ddaw hi i dyfu porfa, mae ffermwyr Prydain yn hynod o effeithiol, a dyw hi ddim yn anghyffredin iddynt gymryd tri chnwd neu fwy o borfa oddiar eu caeau bob blwyddyn. Gan amlaf fe wneir silwair o'r borfa, er mwyn ei gadw at ddibenion buchesi godro a da byw yn ystod y gaeaf, ond wrth i niferoedd gwartheg godro a da byw ostwng, mae ffermwyr yn edrych am ddefnydd amgenach i borfa. At hyn, mae cwtogi ar gynhyrchu i lefelau stocio mwy cynaliadwy yn ystod misoedd y gaeaf hefyd yn golygu gormodedd o borfa yn ystod yr haf.
Mae tir glas yn bwysig nid yn unig i amaethyddiaeth ond hefyd ar gyfer meysydd chwarae, hamddena a thwristiaeth ac mae'n cyfrannu yn helaeth at faterion sy'n ymwneud â thirlun ac amgylchedd. Dyw'r swyddogaethau yma fodd bynnag ddim wedi eu cyfyngu, oherwydd gall systemau ffermio hyfyw hefyd fod o fantais i dwristiaeth a'r amgylchedd ar yr un pryd.

"Erbyn 2030, mae Unol Daleithiau America wedi gosod targedau iddi hi ei hunan i ddiwallu 30% o'i anghenion tanwydd at ddibenion trafnidiaeth o ffynonellau biomas. Mae'r amcangyfrif presennol rhywle tua 200 biliwn o literi gyda 60 biliwn yn cael eu mewnforio. Tasai'r holl india-corn yn America yn cael ei droi yn ethanol buasai hyn ond yn cyrraedd at hanner y targed", yn ôl Dr. Fish.

"Canolbwyntio ar amrywiaethau o rygwellt sy'n uchel mewn siwgr ac a fridiwyd yn wreiddiol yn IGER, sydd ag enw da ar draws y byd, y mae gwyddonwyr Aberystwyth. Maen nhw yn sylweddoli ei fod yn cynnig posibiliadau deniadol iawn, oherwydd mae yna ddigonedd ohono ar draws y byd, mae'n cnydio yn arbennig o uchel, a heb gael effaith andwyol ar gynhyrchu bwyd".

Mae yna oblygiadau pellach i'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd ymhlyg yn y brys am ddarganfod ffynonellau mwy adnewyddol. O fewn cyd-destun y DU mae yna un mesur eisoes wedi ei basio sef y Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy (RTFO) sy'n addo elfen adnewyddol o 5% ar gyfer tanwydd trafnidiaeth erbyn 2010. Mae'r RTFO yn cydnabod yr angen i ddefnyddio 'olewau amgen' ac yn dangos ymrwymiad i economi bio-seiliedig.

Bio-ethanol a bio-diesel yw'r ychwanegion sydd fwyaf tebygol o gael eu defnyddio i ddibenion tanwydd trafnidiaeth er mwyn cyrraedd y targed o 5%, a'r ddau wedi eu bio-buro o ddefnydd crai yn seiliedig ar blanhigion gan gyfrannu at leihad sylweddol mewn gollyngiadau carbon yn y DU.



# TASG Y TINCER

Diolch i bawb am liwio llun y blodau y mis diwethaf. Ew, braf oedd derbyn gwaith gan enwau newydd. Dyma pwy fuodd wrthi:

Paul Watkin, Heulfor, Staylittle, Tal-y-bont; Alison Keegan, Fferm Maes Bangor, Capel Bangor; Elisa Martin, 16 Glanceulan, Penrhyn-coch; Hannah Lee Bowen, 89 Bryncastell, Bow Street; Steffan Lewis, Glanrheidol, Capel Bangor; Rebecca Jones-Williams, Miramar, Goginan; Teleri a Glesni Morgan, Ger-y-nant, Dolau; Alys Miriam Jones, Ty'r Banc, Bont-goch; Daniel Rees, Brysgaga, Bow Street; Megan Mason, Gors Villa, Llandre; Mirain Gregory, Y Deri, 6 Llwyn Afallon, Aberystwyth; Ffion Powell, 10 Maes Ceiro, Bow Street; Ceri Ann Garratt, 12 Y Ddôl Fach, Penrhyn-coch.

Daeth tri llun yr holl ffordd o'r de, sef Bethan Hedd Lewis, 93 Bishopswood, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr; Gareth Ebenezer Thomas, Dinefwr, 61 Rhodfa Butleigh, Llandaf a Gruffudd Iwan Ebenezer Ellis, 21 Ffordd yr Afon, Gwaelod-y-garth, Caerdydd. Diolch yn arbennig i chi am liwio!

Ti, Daniel Rees, Bow Street sy'n ennill y tro hwn – llongyfarchiadau mawr!

Ddaru chi fwynhau eich gwyliau Pasg? Gobeithio i chi gael siawns i fynd allan i chwarae a chael digon o awyr iach. Faint o wyau Pasg ddaru chi fwyta?! Mi fues i'n bwyta llawer gormod! Wel, pa driciau ddaru chi chwarae ar eich teulu a'ch ffrindiau ar Ebrill y 1af? Mae hanes y diwrnod arbennig hwn yn ddiddorol iawn. Ganrifoedd yn ôl, yn 1582, dechreuwyd defnyddio'r calendr sydd gennym ar hyn o bryd. Yn ôl yr hen galendr, byddai'r flwyddyn newydd yn cychwyn tua Ebrill y 1af. Nid oedd pawb yn croesawu'r newid hwn, a bu rhai dal yn dathlu'r calan ar ddechrau Ebrill yn hytrach na'i ddathlu ar Ionawr y 1af. Galwyd rhain yn ffyliaid am nad oedden nhw'n deall fod y drefn wedi newid a'u bod nhw fisoedd yn hwyr gyda'r dathliadau! Roedd y Rhufeiniaid yn dathlu gwyl 'Hilaria' ar Fawrth 25, ac mae gan yr Iddewon eu 'Purim' tua'r adeg hon o'r flwyddyn. Poisson d'Avril yw enw'r Ffrancwyr ar Ebrill 1af, a bydd plant y wlad yn glynu llun o bysgodyn ar ddrws rhywun y mae nhw wedi chwarae tric arnyn nhw. Rwy'n cofio stori ar y teledu ar Ebrill y 1af am spaghetti yn dyfu ar goed, ac am gwmni Burgerking yn gwneud byrger arbennig ar gyfer pobl llaw chwith!

**Y mis hwn, beth am liwio'r llun o'r ffwl? Cofiwch roi sawl lliw llachar i'r wisg. Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn .......... i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!**



Enw

Cyfeiriad

Oed

Rhif ffôn

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes gan
Lewis a Lorraine
Ffôn 880650

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 308 | EBRILL 2008